# Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU | AUDIT AND GOVERNANCE COMMITTEE |
| DYDD MAWRTH, 4 RHAGFYR 2018 am 2.00 y. p. | TUESDAY, 4 DECEMBER, 2018 at 2:00 p.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor — Ann Holmes 01248 752518 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES**

John Griffith, Dylan Rees, Alun Roberts, Margaret M. Roberts

**Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP**

Gwilym O. Jones, Richard Griffiths

**ANNIBYNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS**

R. Llewelyn Jones *(Is-Gadeirydd/Vice-Chair),* Peter Rogers *(Cadeirydd/Chair)*

**AELODAU LLEYG / LAY MEMBERS**

Dilwyn Evans, Jonathan Mendoza

## R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** (Tudalennau 1 - 18)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 19 Medi, 2018.

3 **ARCHWILIO ALLANOL: CYNGOR SIR YNYS MÔN: TROSOLWG A CHRAFFU - ADDAS I'R DYFODOL?** (Tudalennau 19 - 34)

Cyflwyno adroddiad Archwilio Allanol.

4 **DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL** (Tudalennau 35 - 52)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

5 **ARCHWILIO ALLANOL : ADOLYGIAD DILYNOL O GYNIGION AR GYFER GWELLA - CYNGOR SIR YNYS MÔN** (Tudalennau 53 - 64)

Cyflwyno adroddiad Archwilio Allanol.

6 **RHEOLI'R TRYSORLYS: ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN 2018/19** (Tudalennau 65 - 82)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog 151.

7 **ARCHWILIO ALLANOL : LLYTHYR ARCHWILIO BLYNYDDOL 2017/18**

Cyflwyno'r Llythyr Archwilio Blynyddol a'r Llythyr Cwblhau Archwiliad am 2017/18.

*(Adroddiad i ddilyn)*

8 **BLAEN RHAGLEN WAITH 2018/19** (Tudalennau 83 - 90)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

# PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

## Cofnodion y Pwyllgor a gynhaliwyd 19 Medi, 2018

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Peter Rogers (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Robert Llewelyn Jones (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr John Griffith, G.O. Jones, Dylan Rees, Alun Roberts, Margaret Roberts.<br><br>Aelod Lleyg: Dilwyn Evans |
| **WRTH LAW:** | Y Prif Weithredwr<br>Y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151<br>Y Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg (MP)<br>Pennaeth y Gwasanaethau Tai (ar gyfer eitem 10)<br>Y Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Corfforaethol (HP) (ar gyfer eitemau 3,4 a 5)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Richard Griffiths, Jonathan Mendoza (Aelod Lleyg) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Robin Williams (Aelod Portffolio - Cyllid), Mr Gwilym Bury a Mr Alan Hughes (Swyddfa Archwilio Cymru) |

---

### 1. DATGAN DIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

### 2. COFNODION CYFARFOD Y 24AIN O ORFFENNAF, 2018

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar y 24ain o Orffennaf, 2018, a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

Diolchodd y Cadeirydd i Mr Dilwyn Evans am gadeirio cyfarfod y Pwyllgor uchod yn ei absenoldeb ef a'r Is-gadeirydd.

### 3. GWYBODAETH LLYWODRAETHU - ADRODDIAD BLYNYDDOL YR UWCH-BERCHENNOG RISG GWYBODAETH (SIRO)

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO) oedd yn rhoi dadansoddiad o'r materion llywodraethu gwybodaeth allweddol am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018, i'r Pwyllgor ei ystyried. Hefyd, rhoes yr adroddiad y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y Cyngor gyda'i Gynllun Gweithredu GDPR, yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 25 Mai 2018 a 31 Gorffennaf 2018.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o gydymffurfiaeth y Cyngor â gofynion cyfreithiol wrth ymdrin â gwybodaeth gorfforaethol, gan gynnwys cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998; Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000; Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000

(Goruchwylio) a’r codau ymarfer perthnasol. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys sicrwydd o welliant parhaus wrth reoli risgiau i wybodaeth yn ystod 2017-2018; ac yn nodi cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Mae'n adrodd ar gyswllt y Cyngor â rheoleiddwyr allanol ac yn darparu gwybodaeth am ddigwyddiadau diogelwch, torri cyfrinachedd, neu "ddigwyddiadau trwch blewyn” yn ystod y cyfnod perthnasol. Tynnodd sylw at y prif bwyntiau fel a ganlyn -

- Mae'n debygol mai diffyg cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data yw'r risg gwybodaeth sylfaenol i'r Cyngor. O ganlyniad, gwnaed llawer o gynnydd i ddatblygu ymwybyddiaeth o risgiau data personol er mwyn cyflwyno ffyrdd i reoli'r risg yn unol ag arfer gorau a chan ragweld diwygio diogelu data. Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi nodi risgiau o ran data personol yn ei gofrestrau risg corfforaethol a gwasanaeth.
- Mae'r Cyngor yn cydnabod bod yna nifer o risgiau i ddiogelwch gwybodaeth fel y'u rhestrir yn yr adroddiad a bod achosi niwed a gofid i unigolyn(unigolion), cosbau ariannol, camau gorfodi, cyhoeddusrwydd anffafriol a cholli hyder yn y Cyngor hefyd yn beryglon sy’n gysylltiedig â’i asedau data personol. Felly, yn ogystal â mesurau technegol a chorfforol i warchod gwybodaeth y Cyngor, mae amrywiaeth o ddulliau diogelu technegol a sefydliadol wedi'u sefydlu yn erbyn risgiau gwybodaeth; Mae'r rhain yn amrywio o bolisïau a gweithdrefnau Llywodraethu Gwybodaeth addas ac offer TGCh wedi'u hamgryptio i hyfforddiant diogelu data, Dangosyddion Perfformiad Allweddol Llywodraethu Gwybodaeth a gweithdrefnau ar gyfer cofnodi digwyddiadau diogelwch data a dysgu ohonynt.
- Yng nghyswllt Rheoliad Gwarchod Data Cyffredinol (GDPR), bod Adran 5.1 yr adroddiad yn amlinellu'r cynnydd hyd at 31 Mawrth 2018 h.y. y cyfnod a gwmpesir gan adroddiad y SIRO a ddatblygodd gynlluniau'r Cyngor i weithredu'r GDPR a hefyd y gwaith dilyn-i-fyny a wnaed ers 31 Mawrth 2018 hyd at 31 Gorffennaf 2018 i weithredu GDPR gan gynnwys y cynllun gweithredu 5 cam. Cadarnhaodd y Swyddog fod yr holl ofynion dan bob un o'r 5 cam wedi'u bodloni. Mewn perthynas â hyfforddiant dan Gam 5 y broses, mae'r adroddiad yn dangos y nifer ym mhob un o wasanaethau'r Cyngor sy'n manteisio ar y modiwl e-ddysgu a gyflwynwyd ym mis Mai 2018. Ar 31 Gorffennaf, roedd cyfanswm o 747 o staff, neu 47%, wedi cwblhau'r modiwl. Mae tystiolaeth o hyfforddiant ar y cyd â thystiolaeth o dderbyn polisi yn rhoi sicrwydd mesuradwy i'r Cyngor.
- Bod Derbyn Polisi yn diogelu’r Cyngor gan ei fod yn rhoi tystiolaeth bod staff wedi darllen a deall y polisi. Gwnaed Polisi Diogelu Data'r Cyngor yn orfodol i'w dderbyn rhwng 4 Mehefin 2018 a 2 Gorffennaf 2018 ac roedd y gyfradd derbyn yn 83%. Mae'r Polisi Diogelu Data yn parhau ar agor i'w dderbyn.
- Bod y Cyngor wedi sefydlu ei system rheoli polisi, Porth Polisi sydd fel llyfrgell o bolisïau ers mis Tachwedd, 2016. Cyflwynwyd y swyddogaeth derbyn polisi ym mis Ebrill 2017 ac mae'n rhoi sicrwydd bod polisïau allweddol Llywodraethu Gwybodaeth yn cael eu darllen, eu deall a'u derbyn yn ffurfiol gan aelodau unigol o staff. Mae’r ffaith fod y Porth Polisi ar gael hefyd wedi gwneud tasg monitro gwaith cydymffurfio â diogelu data ar ôl 25 Mai 2018 yn llawer haws. Roedd y cyfraddau derbyn ar gyfer pob un o'r polisïau gorfodol - y Polisi Desg Glir, Polisi Rheoli Cofnodion a Pholisi Dosbarthu Data – yn 95%.
- Bod y Porth Polisi’n dibynnu ar Gyfeirlyfr Gweithredol y Cyngor sydd bellach yn cynnwys tua 1,000 o ddefnyddwyr gweithredol, yn dilyn cynnwys y Gwasanaeth Dysgu. Fodd bynnag, amcangyfrifir nad oes gan oddeutu 686 o staff Gyfeirlyfr Gweithredol. Mae defnyddwyr Cyfeirlyfr Gweithredol sydd â chyfrifon e-bost yn meddu ar Drwyddedau Mynediad Cleientiaid Microsoft sy'n ddrud. Byddai darparu unrhyw offer TG i hwyluso mynediad hefyd yn golygu mwy o gost. Er y byddai darparu cyfrifon Cyfeirlyfr Gweithredol i'r holl staff yn dechnegol bosib, byddai'n rhy gostus ac, felly, nid yn flaenoriaeth ar hyn o bryd.
- Yn ystod cyfnod yr adroddiad, monitrodd y Cyngor rai Dangosyddion Perfformiad Allweddol penodol Llywodraethu Gwybodaeth, rhai yn fisol ac eraill bob chwarter. (Adran 5.9 yr adroddiad). Mae hefyd yn cyhoeddi ei ddata mynediad at wybodaeth ar ei wefan bob chwarter.
- Bod 19 o ddigwyddiadau diogelwch data Lefel 0 i Lefel 1 wedi’u cofnodi yn ystod y cyfnod h.y. digwyddiadau a ddosbarthwyd fel digwyddiadau trwch blewyn neu'n cael eu cadarnhau



DRAFT

fel digwyddiadau diogelwch data nad oes angen eu hadrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a rheoleiddwyr eraill (o 33 yn yr adroddiad blaenorol). Cofnodwyd un digwyddiad Lefel 2, e.e. digwyddiad diogelwch data y mae'n rhaid ei adrodd i Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth a rheoleiddwyr eraill fel sy'n briodol. Rhoddir manylion yn Atodiad A yr adroddiad.

• Yn seiliedig ar y wybodaeth a gesglir am y cyfnod y mae'r adroddiad yn ei gwmpasu, mae'r SIRO yn ystyried bod tystiolaeth sylweddol wedi’i gofnodi i ddangos yr isod -

- mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer cydweithrediad Llywodraethu Gwybodaeth a diogelu data yn rhesymol effeithiol
- mae'r Cyngor wedi bodloni'r her o weithredu'r ddeddfwriaeth newydd ar ddiogelu data yn llwyddiannus ac mae'n gweithredu mewn modd cydymffurfiol;
- mae gan y Cyngor brosesau ar waith i ddangos ei fod yn cydymffurfio â Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth ai fod yn cydymffurfio ag egwyddor atebolrwydd y GDPR;
- Mae diogelu data yn parhau ac mae'n debygol o barhau i fod yn risg ganolig i'r Cyngor bob amser oherwydd sensitifrwydd y data personol y mae'n eu prosesu sy'n amrywio rhwng y gwasanaethau.

Rhoes y Pwyllgor ystyriaeth i'r wybodaeth a gyflwynwyd ac fe wnaeth bwyntiau fel a ganlyn –

- Nododd y Pwyllgor mai ar 31 Gorffennaf, 2018, dim ond 43% o'r staff oedd wedi manteisio ar y modiwl e-ddysgu ar gyfer dysgu diogelu data gyda rhai gwasanaethau mewn sefyllfa lai cydymffurfiol nag eraill, e.e. Gwasanaethau Oedolion a Gwasanaethau Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad a oedd trefniadau wedi'u gwneud i sicrhau bod yr holl staff yn ymgymryd â'r hyfforddiant ac a oes dyddiad targed wedi'i bennu erbyn pryd y disgwylir y bydd hyn wedi’i gwblhau.

  Dywedodd y Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Corfforaethol bod cynnydd wedi'i wneud ers y cyfnod hwnnw a’i fod yn parhau, er bod yr adroddiad yn cyfeirio at y sefyllfa hyd at 31 Gorffennaf. Penaethiaid Gwasanaeth sy'n gyfrifol am sicrhau bod eu staff yn cwblhau'r modiwl e-ddysgu er, fel y trafodir yn yr adroddiad, mae rhai grwpiau o staff o fewn rhai gwasanaethau - e.e. Gofalwyr Cartref o fewn staff Gwasanaethau Oedolion a Thrafnidiaeth a staff y Ganolfan Ailgylchu mewn gwasanaethau Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff - yn cael problemau mynediad oherwydd nad ydynt yn ddefnyddwyr Cyfeirlyfr Gweithredol ac, felly, nid ydynt wedi'u cynnwys yn y broses. O’r herwydd, mae cyfraddau cydymffurfio is ar gyfer y gwasanaethau hyn.

- Nododd y Pwyllgor y gallai'r Bwrdd Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol a sefydlwyd yn 2014 i fynd i'r afael â materion Llywodraethu Gwybodaeth adrodd yn uniongyrchol ar faterion i Uwch-dîm Arweinyddiaeth y Cyngor. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad o unrhyw amgylchiadau lle canfuwyd bod hyn yn angenrheidiol ac, o gofio arwyddocâd y swyddogaeth Llywodraethu Gwybodaeth o fewn y Cyngor, a ddylid rhoi gwybod i’r Uwch Dîm Arweinyddiaeth mewn unrhyw achos fel mater o drefn.

  Dywedodd y Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Corfforaethol ei bod, ers Mai 2018, yn statudol ofynnol i'r Cyngor sicrhau bod llinellau adrodd i'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth yn agored ac yn hygyrch; yn hanesyddol adroddwyd am ddigwyddiadau diogelwch data i'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth ynghyd â materion cysylltiedig megis achosion o ôl-gronni mewn hyfforddiant er enghraifft. Ar hyn o bryd, er mwyn sicrhau bod y broses adrodd yn gymesur, caiff yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth wybodaeth yn rheolaidd.

- Nododd y Pwyllgor y bydd hyfforddiant Diogelu Data yn rhan o'r broses sefydlu ar gyfer staff newydd. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad a fyddai'r ddarpariaeth hon ar gael i bob

aelod o staff newydd mewn gwasanaethau fel Gwasanaethau Oedolion, er enghraifft, lle mae materion mynediad / presenoldeb wedi'u nodi mewn perthynas â grwpiau penodol o staff, yn enwedig staff oddi ar y safle, megis gofalwyr cartref.

Dywedodd y Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Corfforaethol, fel y mae'r adroddiad yn ei gydnabod, bod dibyniaeth y Porth Polisi ar Gyfeirlyfr Gweithredol y Cyngor wedi'i gydnabod fel cyfaddawd o'r cychwyn cyntaf oherwydd y caiff staff nad ydynt yn defnyddio Cyfeirlyfr Gweithredol eu hepgor o'r broses. Fodd bynnag, mae cyfarfod wedi'i gynllunio ar gyfer diwedd mis Medi i edrych ar amrywiol opsiynau ar gyfer gwasanaethau a effeithir yn hyn o beth.

- Nododd y Pwyllgor y cofnodwyd 22 o ddigwyddiadau Diogelwch Lefel 0 -1 yn ystod y cyfnod adrodd. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad a fyddai nifer yr achosion ar ôl cwblhau'r hyfforddiant yn lleihau a / neu ddiogelwch data yn gwella.

  Dywedodd y Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Corfforaethol, oherwydd natur y risgiau sy'n gysylltiedig â diogelu data - er enghraifft, camgymeriad dynol, ei bod yn annhebygol y bydd nifer y digwyddiadau diogelwch data yn lleihau i ddim. I'r gwrthwyneb, mae cofnodi digwyddiadau diogelwch data yn dangos ymwybyddiaeth o'r angen i adrodd am ddigwyddiadau o'r fath ac effeithiolrwydd y broses adrodd, sy'n bwysig yng nghyd-destun llywodraethu gwybodaeth.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys a chymryd sicrwydd o gasgliadau'r Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth ynghylch effeithiolrwydd trefniadau'r Cyngor ar gyfer Llywodraethu Gwybodaeth am y cyfnod a gwmpesir gan Adroddiad Blynyddol 2017/18.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL**

**4. DERBYN POLISÏAU – DATA CYDYMFFURFIO BLWYDDYN 1**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro yn amlinellu'r lefelau cydymffurfio ar gyfer yr holl wasanaethau ac eithrio'r Gwasanaeth Dysgu ar gyfer gofynion derbyn polisi yn seiliedig ar wybodaeth sydd ar gael ar 24 Gorffennaf, 2018, i'r Pwyllgor ei ystyried.

Adroddodd y Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Corfforaethol y bu system rheoli polisi'r Cyngor - y Porth Polisi - ar gael i staff fel llyfrgell electronig o fis Tachwedd, 2016. Dechreuodd gofynion derbyn polisi ar 24 Ebrill, 2017. Roedd y Porth Polisi'n rhoi i'r Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth sicrwydd bod aelodau unigol o staff yn darllen polisïau allweddol Llywodraethu Gwybodaeth, yn eu deall ac yn eu derbyn yn ffurfiol.

Cyfeiriodd y Swyddog at y pwyntiau allweddol a ganlyn mewn perthynas â lefelau cydymffurfio Blwyddyn 1 –

- Daeth saith polisi yn rhan o'r broses clicio i dderbyn rhwng Ebrill 2017 a Mehefin 2018, fel y'u pennwyd gan Uwch-dim Arweinyddiaeth y Cyngor - Polisi Desg Glir; Polisi Rheoli Cofnodion; Polisi Dosbarthiadau Data; Polisi Rheoli Absenoldeb; Polisi Offer Sgrîn Arddangos; Iechyd a Diogelwch: Rolau a Chyfrifoldebau; Safonau'r Iaith Gymraeg.
- Mae Atodiad 1 yr adroddiad hwn yn rhoi manylion lefelau cydymffurfio o ran y polisïau uchod ar gyfer pob gwasanaeth ac eithrio'r gwasanaeth Dysgu. Fe wnaed penderfyniad ym mis Ebrill 2017 i beidio â chynnwys y gwasanaeth Dysgu gan fod grŵp TG y gwasanaeth yn cynnwys staff ysgolion nad oedd y broses yn berthnasol iddynt. Mae'r mater yma bellach wedi cael sylw a chafodd y gwasanaeth Dysgu ei gynnwys yn y broses gorfforaethol am y tro cyntaf ym mis Gorffennaf 2018, pryd y gwnaed Polisi

Diogelu Data'r Cyngor ar gael i'w dderbyn. Bydd y saith polisi cyntaf y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn yn cael eu dynodi'n raddol i'r Gwasanaeth Dysgu dros y misoedd i ddod.

- Cyflwynir adroddiadau cydymffurfio fesul gwasanaeth i'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth ar ddiwedd y cyfnodau chwe wythnos a roddir i dderbyn pob polisi. Mae'r holl bolisïau'n parhau i fod ar gael i'w derbyn ar ôl y dyddiadau cau, fel bod defnyddwyr sydd heb gwblhau polisi ar amser yn gallu dal i fyny.
- Hyd at 24 Gorffennaf 2018, cydymffurfir 95% ar gyfartaledd ar draws y Cyngor ar gyfer pob polisi, o'i gymharu â chyfartaledd o 79% ar ddiwedd y cyfnodau derbyn chwe wythnos a roddwyd ar gyfer pob polisi. Mae pob gwasanaeth wedi cyrraedd lefelau cydymffurfio uchel, heblaw am y Gwasanaethau Oedolion lle nad oes gan nifer o staff gyfrif Cyfeirlyfr Gweithredol, sy'n broblem.
- Mae lefel cydymffurfio yn y Gwasanaethau Plant – rhywbeth a nodwyd fel problem gan y Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod y mis Medi -  wedi gwella'n sylweddol, gyda chyfradd ar gyfartaledd o 99% hyd at 24 Gorffennaf 2018, o'i gymharu â chyfartaledd o 57% ar ddiwedd y cyfnodau derbyn chwe wythnos. Cyflawnodd y Gwasanaethau Oedolion raddfa o 78% ar gyfartaledd hyd at 24 Gorffennaf 2018 sydd yn welliant ar y cyfartaledd o 63% ar ddiwedd y cyfnodau derbyn chwe wythnos a bennir i bob polisi, er eu bod ar ei hôl i o'i gymharu â gwasanaethau eraill.
- Mae'r Porth Polisi'n dibynnu ar Gyfeirlyfr Gweithredol y Cyngor ac mae nawr yn cynnwys o gwmpas 1000 o ddefnyddwyr gweithredol, ar ôl cynnwys y Gwasanaeth Dysgu. Cydnabuwyd bod dibyniaeth y Porth ar y Cyfeirlyfr Gweithredol yn wendid o'r cychwyn cyntaf ac mae'r Pwyllgor hwn wedi mynegi pryder nad yw staff, nad ydynt yn defnyddio'r Cyfeirlyfr, yn rhan o'r broses hon. Amcangyfrifir mai o gwmpas 709 o staff nad oes ganddynt gyfrifon Cyfeirlyfr Gweithredol, gan gynnwys: gweithwyr cefnogi arbenigol a staff oddi ar y safle yn y Gwasanaethau Oedolion, Gwasanaethau Plant, y Gwasanaeth Dysgu, Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo a'r Gwasanaethau Rheoleiddio a Datblygu Economaidd. Er ystyried datrysiadau e.e. darparu trwyddedau Mynediad i Gleientiaid Microsoft; cyfarpar TG neu greu cyfrifon â llaw, daethpwyd i'r casgliad felly, er bod modd ehangu sgôp y Porth i gynnwys staff nad ydynt yn y Cyfeirlyfr Gweithredol, byddai angen adnoddau a chynllunio sylweddol sydd yn mynd y tu draw i gylch gorchwyl gwreiddiol y system er mwyn gweithredu hyn.

Daeth y Swyddog i'r casgliad gan ddweud bod y Porth Polisi'n system werthfawr o ran hwyluso llawer o waith oruchwylio a monitro cydymffurfio, er gwaethaf y cyfyngiadau y cyfeiriwyd atynt uchod a, thrwy hynny, roi i Reolwyr sicrwydd bod y staff yn gyfarwydd â'r polisïau llywodraethu gwybodaeth allweddol diweddaraf.

Nododd y Pwyllgor lefelau cydymffurfio o ran derbyn polisïau ym Mlwyddyn 1 gan gynnwys y gwelliant o ran cydymffurfiaeth y Gwasanaethau Plant ac Oedolion, gan nodi hefyd yr erys mynediad cyffredinol gan staff gwasanaethau at y Porth Polisi yn broblem sy'n parhau i gael ei datrys yn foddhaol.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a roddwyd ynghylch Derbyn Polisi Data Cydymffurfio Blwyddyn 1.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL**

## 5. ADRODDIAD BLYNYDDOL: PRYDERON, CWYNION A CHWYTHU'R CHWIBAN 2017-2018

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro oedd yn rhoi gwybodaeth am faterion sy'n codi dan Bolisi Pryderon a Chwynion y Cyngor am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018, i'r Pwyllgor ei ystyried. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol ond dim ond y rhai hynny lle nad

oedd yr achwynydd yn ddefnyddiwr gwasanaeth. Ymdrinnir â chwynion defnyddwyr gwasanaeth dan Weithdrefn Cynrychioliadau a Chwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol ac fe'u cyflwynir yn flynyddol i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol.

Adroddodd y Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Corfforaethol bod 112 o bryderon wedi'u derbyn yn ystod cyfnod yr adroddiad a gwnaed 72 o gwynion. O'r 72 cwyn, tynnwyd un gŵyn yn ôl cyn yr ymchwiliad (Tai) felly ymchwiliwyd i 71 o gwynion ac anfonwyd ymatebion ffurfiol. Darperir dadansoddiad o bryderon a chwynion yn ôl gwasanaeth yn adran 8 yr adroddiad. Y gyfradd gyffredinol o ymatebion i gwynion a ddosbarthwyd o fewn y terfyn amser penodedig (20 diwrnod gwaith) oedd 92%. O'r 71 o gwynion yr ymdriniwyd â nhw yn ystod y cyfnod, caniatawyd 17 yn llawn, caniatawyd chwech yn rhannol ac ni chaniatawyd 48 ohonynt. Anfonwyd naw cwyn ymlaen at Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru; Gwrthodwyd wyth o'r rhain a chafodd un ei datrys trwy benderfyniad cynnar. Roedd pob un o'r naw cwyn a anfonwyd at yr Ombwdsman wedi bod drwy'r broses fewnol. Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion ffurfiol yn ymwneud ag iaith yn ystod y flwyddyn. Nid oedd ychwaith unrhyw achosion o ddatgelu trwy chwythu'r chwiban yn ystod 2017/8 ac nid oedd unrhyw faterion heb eu talu o 2016/17.

Amlygodd y Swyddog y ffaith bod y Polisi Pryderon a Chwynion yn rhoi pwyslais ar ddysgu gwersi o gwynion a, thrwy hynny, wella gwasanaethau. Mae Papur 1 yr adroddiad yn ceisio esbonio pa wersi a ddysgwyd ac unrhyw ymarfer sydd wedi esblygu o ganlyniad i hynny.

Rhoes y Pwyllgor ystyriaeth i'r wybodaeth a gyflwynwyd ac er ei fod yn nodi bod nifer y cwynion yn rhesymol o ystyried y cyfyngiadau ariannol cynyddol y mae gwasanaethau yn gweithredu ynddynt o ran gwneud cwynion yn fwy tebygol, yn hytrach na llai tebygol, nododd hefyd na adroddwyd unrhyw achosion o ddatgelu trwy chwythu'r chwiban ac nid oedd unrhyw faterion yn disgwyl sylw ers 2016 / 17. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad a yw'r patrwm hwn yn cael ei ailadrodd mewn awdurdodau eraill neu a yw'n nodi nad yw gweithdrefnau chwythu'r chwiban wedi'u dogfennu'n ddigonol ac / neu eu cyfleu drwy'r Awdurdod ac, felly, nid yw pobl yn eu deall.

Dywedodd y Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Corfforaethol nad oedd ganddo ddata meincnodi mewn perthynas ag unrhyw achosion o ddatgelu trwy chwythu'r chwiban. Efallai mai anghysondeb yw'r ffaith na fu datgeliadau o'r fath yn 2017/18 ond mae'n fwy tebygol o fod yn barhad o'r un patrwm mewn blynyddoedd blaenorol lle nad yw nifer yr achosion o ddatgelu trwy chwythu'r chwiban wedi bod yn uchel.

**Penderfynwyd -**

- **Derbyn yr adroddiad fel un sy'n rhoi sicrwydd rhesymol bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r prosesau sy'n ofynnol dan ei Bolisi Pryderon a Chwynion a Pholisi / Canllawiau Chwythu'r Chwiban.**
- **Cymeradwyo'r prif negeseuon o'r Tabl Gwersi a Ddysgwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad, sef-**
    - **Bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu'n atgoffa'r holl Benaethiaid Gwasanaeth bod rhaid dilyn y Siarter Gofal Cwsmer wrth ymdrin â'r cyhoedd bob amser a sicrhau hyfforddiant rheolaidd a hyfforddiant gloywi fel bo'r angen.**
    - **Gweithredu system gorfforaethol newydd o hyn ymlaen lle bydd gofyn i wasanaethau gwblhau gwersi ffurfiol a ddysgwyd ar ddiwedd y broses gwyno am unrhyw gŵyn a ganiatawyd neu a ganiatawyd yn rhannol.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL**

**6. DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL AR GYNNYDD**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg a roes y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd diweddaraf Archwilio Mewnol o ran darparu gwasanaethau, rhoi sicrwydd ac adolygiadau a gwblhawyd i'r Pwyllgor ei ystyried.

Adroddodd y Pennaeth Archwilio a Risg fel a ganlyn –

- Y cwblhawyd pedwar adroddiad Archwilio Mewnol yn ystod y cyfnod gyda thri ohonynt yn arwain at sgôr Sicrwydd Sylweddol - roedd y rhain mewn perthynas â Grant Gwella Addysg 2017/18; Grant Datblygu Disgyblion 2017/18 a Monitro Contract Cynnal a Chadw Priffyrdd. Esgorodd y pedwerydd adolygiad oedd yn ymwneud â Grant Gwisg Ysgol 2017/18 ar sgôr Sicrwydd Rhesymol. Er y codwyd un risg gymedrol ar adolygiad Monitro Contract Cynnal a Chadw Priffyrdd oedd yn ymwneud â'r angen i gynnal cofrestr contractau, ar y cyfan, roedd y rheolaethau sydd ar waith i fonitro contractau cynnal a chadw priffyrdd yn effeithiol a, thrwy hynny, yn rhoi sicrwydd sylweddol.
- Bod chwe adroddiad gyda sgôr Sicrwydd Cyfyngedig wedi'u trefnu ar gyfer adolygiad dilyn-i-fyny fel y manylir ym mharagraff 16 yr adroddiad. Mae pedwar adolygiad dilyn-i-fyny ar y gweill ar hyn o bryd - Amrywiol Ddyledwyr; Gorchmynion Llys Gofal Plant dan Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus; Fframwaith Caffael Corfforaethol a Pharatoi'r Cyngor ar gyfer GDPR - mae gan y rhain ddyddiad adrodd arfaethedig, sef cyfarfod Rhagfyr o'r Pwyllgor Archwilio.
- Bod adroddiad manwl o'r holl argymhellion a materion / risgiau sydd ar gael yn cael ei roi ar wahân ar yr agenda.
- Bod y cynnydd wedi bod yn araf wrth gyflwyno Cynllun Gweithredol yr Archwilio Mewnol am 2018/19 yn bennaf oherwydd dwy swydd wag ac absenoldeb salwch tymor hir. Fodd bynnag, mae dau Uwch-archwiliwr Mewnol newydd wedi cychwyn yn y swydd yn ddiweddar, sy'n golygu bod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi'i staffio'n llawn am y tro cyntaf ers mis Awst, 2017.
- Yn ogystal â gwneud gwaith dilyn-i-fyny, bod y Gwasanaeth yn cymryd rhan mewn Adolygiad Thematig o Ysgolion Cynradd, sy'n canolbwyntio'n bennaf ar gasglu incwm yn ogystal â gwaith mewn perthynas â Sipsiwn a Theithwyr (Gofynion Deddf Tai (Cymru) 2014). Yn ogystal, mae'r Gwasanaeth yn rhan o ymarferiad dwy flynedd y Fenter Twyll Cenedlaethol ac mae'n darparu data ar gyfer yr ymarfer cyfatebu data. Bydd hefyd yn dechrau gweithio'n fuan ar yr adolygiad diogelwch seiber.
- Bod Cynllun Gweithredol 2018/19 Archwilio Mewnol yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu adolygiad diweddaraf yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol a gynhaliwyd10 Medi. Cyflwynir y fersiwn wedi'i diweddaru i gyfarfod Rhagfyr o'r Pwyllgor.
- Er mwyn sicrhau gwrthrychedd ac annibyniaeth, y byddai Yswirwyr y Cyngor yn cynnal archwiliad Rheoli Risg ar ffurf archwiliad iechyd annibynnol gan na fyddai'n briodol i'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol gynnal yr archwiliad o ystyried cyfrifoldeb goruchwylio'r Pennaeth Archwilio dros Reoli Risg.
- Ar hyn o bryd bod diffyg adnoddau o 77 diwrnod ar y Cynllun Gweithredol. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd yr adolygiad diweddar o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol a gostwng lefel risgiau penodol yn arwain at newidiadau i'r Cynllun gyda rhai adolygiadau'n cael eu tynnu allan a, thrwy hynny, leihau'r ymrwymiadau a dod â'r diffyg i lawr.

  Nododd y Pwyllgor y wybodaeth a gyflwynwyd ac roedd yn fodlon â'r cynnydd a wnaed gan gael sicrwydd yn y diweddariad a ddarparwyd.

**Penderfynwyd derbyn a nodi'r cynnydd hyd yma gan Archwilio Mewnol o ran darparu gwasanaethau, rhoi sicrwydd, adolygiadau a gwblhawyd a'i berfformiad a'i effeithiolrwydd wrth yrru gwelliant.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL**

DRAFT

**7. ARGYMHELLION ARCHWILIO MEWNOL SY'N PARHAU I FOD ANGEN SYLW**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg ar statws a manylion y risgiau eithriadol a godwyd gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, i'r Pwyllgor ei ystyried.

Adroddodd y Pennaeth Archwilio a Risg fel a ganlyn –

- Bod y Cyngor yn gwella ei berfformiad yn gyson wrth weithredu argymhellion / mynd i'r afael â risgiau gyda'r ganran weithredu gyffredinol ar hyn o bryd yn 93%.
- Hyd at 3 Medi, 2018, bod gan y Cyngor argymhellion / risgiau oedd yn disgwyl sylw a phroblemau gyda dyddiad gweithredu targed o 31 Awst 2018, fel y'i crynhoir yn Nhabl 4.1 yr adroddiad ac yr ymhelaethir arno yn Atodiad A.
- Bod y ddau risg coch sy'n disgwyl sylw yn ymwneud â Gorchmynion Llys Gofal Plant dan Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus - yn benodol ymddygiad ymweliadau gweithiwr cymorth, a'r Fframwaith Caffael Corfforaethol - Cydymffurfiaeth Gorfforaethol (Gwasanaeth Tai). O ran ymweliadau gweithiwr cymorth, mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi dod i'r casgliad nad oedd yr ymweliadau perthnasol wedi'u cofnodi, er y gallant fod wedi'u cynnal. Fodd bynnag, mae profion cychwynnol wedi dangos bod y risg hwn bellach wedi cael sylw. Mae angen parhau gwneud gwaith mewn perthynas â'r Fframwaith Caffael Corfforaethol ac mae'r archwiliad dilyn-i-fyny yn parhau i fynd rhagddo. Fel bod modd i'r Pwyllgor werthfawrogi graddfa'r gwaith, a pha mor berthnasol yw'r materion dan sylw, bydd Archwilio Mewnol yn adrodd i gyfarfod Rhagfyr y Pwyllgor ar ganlyniad y gwaith dadansoddi data y mae'n ei wneud fel rhan o'r gwaith archwilio dilyn-i-fyny.
- Y bydd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol mewn sefyllfa well i adrodd ar yr wyth risg oren sydd heb eu gweithredu i gyfarfod Rhagfyr y Pwyllgor.

**Penderfynwyd nodi cynnydd y Cyngor hyd yn hyn wrth fynd i'r afael â'r argymhellion a'r Archwiliadau Mewnol sy'n disgwyl sylw ac a godwyd ers 1 Ebrill, 2014.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL**

**8. DATGANIAD O'R CYFRIFON 2017/18 AC ADRODDIAD ISA 260**

8.1 Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Adran 151 sy'n cynnwys y Datganiad Cyfrifon Terfynol am 2017/18 yn dilyn archwiliad, a hynny er mwyn i'r Pwyllgor ei ystyried.

Adroddodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Adran 151 bod y dyddiad cau statudol ar gyfer cwblhau'r cyfrifon archwiliedig 2017/18 wedi'i fodloni eto. Gwnaed gwelliannau y nododd y broses archwilio'r llynedd ac maent yn parhau. Ymdriniwyd â phob mater a gododd trwy'r archwiliad yn brydlon ac yn foddhaol.

Dywedodd y Swyddog fod pob newid i'r cyfrifon drafft y cytunwyd bod angen eu hailddatgan gyda Deloitte, fel archwilwyr ariannol y Cyngor, wedi cael eu prosesu a'u cynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Mae'r gwelliannau arwyddocaol sy'n ofynnol i'r datganiad drafft wedi'u cyfyngu i raddau helaeth i'r isod –

- Cysoni'n anghywir i gyfriflyfr y Cyngor Fudd-daliadau Tai a ordalwyd ac a gofnodwyd ar y system Budd-daliadau Tai dros y tair blynedd diwethaf, rhywbeth a arweiniodd at dangydnabyddiaeth o refeniw;
- defnyddiwyd canrannau anghywir yn wreiddiol yn adroddiad y prisiwr mewnol a arweiniodd at gyfrifiad anghywir o symiau ailbrisio asedau sefydlog;
- yn dilyn adolygiad o driniaeth y gronfa wrth gefn a glustnodwyd ar gyfer safle Tirlenwi Gwastraff Penhesgyn, nodwyd bod hyn yn bodloni'r meini prawf ar gyfer darpariaeth, felly codwyd darpariaeth ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae'r gronfa wrth gefn a glustnodwyd wedi'i rhyddhau.

Cyfeiriodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 at y ddau gamddatganiad y penderfynodd Rheolwyr beidio â'u cywiro fel y nodir yn Atodiad 3 yn adroddiad yr Archwiliwr Allanol. Hwn yw'r un sydd mewn perthynas â'r ymdriniaeth o fewn y cyfrifon drafft â chyfraniad o £ 3.66m a wnaed gan y Cyngor i Gronfa Bensiwn Gwynedd i dalu am elfen sefydlog cyfraniadau'r cyflogwr am y cyfnod tair blynedd 2017/18 i 2019/20 a'r llall mewn perthynas ag ymdrin ag ad-daliad o oddeutu £ 0.8m oddi wrth CThEM am TAW a dalwyd ar y Gwasanaethau Hamdden yn dyddio'n ôl i 2012.

Dywedodd y Swyddog fod y swm a dalwyd i Gronfa Bensiwn Gwynedd yn cael ei drin fel taliad ymlaen llaw ond, ar ôl gweld sut roedd yr Actiwari, wrth adolygu'r Gronfa Bensiwn, wedi cyfrif am y taliad, daeth yn amlwg fod ymdriniaeth yr Awdurdod yn anghywir. Mae'r archwilwyr wedi cymryd cyngor gan Swyddfa Archwilio Cymru ac wedi dod i'r casgliad y dylai'r taliad gael ei gydnabod yn llawn yn y flwyddyn taliad, sef 2017/18 a chodi amdano yn y gronfa gyffredinol. Fodd bynnag, gan y byddai hyn yn cael effaith o leihau balans y gronfa gyffredinol, mae'r Rheolwyr wedi penderfynu peidio â gwneud hyn ac, yn lle hynny, mae crynodeb wrth gefn wedi'i chreu sydd â'r effaith o leihau'r hyn sydd wedi'i glustnodi, yn hytrach na'r balans wrth gefn cyffredinol. Nid yw'r gwahaniaeth mewn ymdriniaeth, sef gwahaniaeth mewn dosbarthiad, yn cael effaith ar gyfanswm y ffigwr y gellir ei ddefnyddio. Mae'r archwilwyr wedi egluro'r gwahanol ddulliau yn eu hadroddiad.

O ran yr ail gamddatganiad nad yw wedi'i gywiro, mae'r Awdurdod wedi derbyn ad-daliad o oddeutu £800k oddi wrth CThEM am TAW a dalwyd ar ffioedd gwasanaeth hamdden sy'n dyddio'n ôl i 2012 gan fod y rhain bellach wedi'u dosbarthu fel cyflenwad eithriedig yn hytrach na graddio safonol. Gofynnodd Pwyllgor Gwaith y Cyngor am arweiniad ar sut i ymdrin â'r ad-daliad, ond gan nad oedd y Pwyllgor Gwaith yn cyfarfod tan 17 Medi, roedd yn rhy hwyr i newid y cyfrifon i adlewyrchu'r penderfyniad a wnaed. Felly, ni chafodd yr ad-daliad ei gyfrif yng nghyfrifon 2017/18. Yn lle hynny, bydd y credyd am yr ad-daliad yn dod i gyfrifon 2018/19. Oherwydd bod yr ad-daliad am gyfnod cyn 1 Ebrill 2018, barn yr archwilwyr yw y dylai fod wedi'i gyfrif yng nghyfrifon 2017/18. Fodd bynnag, nid yw'r ffigur mor arwyddocaol am yr hyn sydd wedi'i hepgor i gael effaith sylweddol ar gyfrifon 2017/18.

Ar ddiwedd gwaith archwilio'r Datganiad Cyfrifon mae'r Archwilwyr wedi gwneud saith argymhelliad mewn perthynas â rheoli cyfrifyddu a'r gyflogres; dau argymhelliad mewn perthynas â TG a phedwar argymhelliad mewn perthynas â phrisiad asedau.

8.2 Cyflwynwyd adroddiad yr Archwiliwr Allanol ar archwiliad o'r Datganiadau Ariannol am 2017/18 (adroddiad ISA 260) i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Adroddodd Mr Ian Howse, Arweinydd Ymgysylltu'r Archwiliad Ariannol fel a ganlyn -

- Derbyniwyd y datganiadau ariannol drafft am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth, 2017 gan yr Archwilwyr ar 11 Mehefin, 2018 ac mae'r gwaith archwilio arno bellach wedi'i gwblhau'n sylweddol. Ar ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad ar ddatganiadau ariannol, roedd y tri mater a nodir yn adran 6 yr adroddiad yn parhau i ddisgwyl sylw.
- Yn amodol ar gwblhau'n foddhaol waith sy'n parhau i ddisgwyl sylw, bwriad yr Archwilydd Cyffredinol yw cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar y datganiadau ariannol unwaith y bydd yr Awdurdod wedi darparu Llythyr Sylwadau yn seiliedig ar yr hyn a nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad.
- O ran materion arwyddocaol sy'n deillio o'r archwiliad, mae camddatganiadau nad ydynt wedi'u cywiro gan y Rheolwyr yr ystyria'r archwilwyr y dylid eu cyfeirio at y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu oherwydd eu bod yn berthnasol i'w cyfrifoldebau am y broses adrodd ariannol. Nodir y rhain gydag eglurhad yn Atodiad 3 yr adroddiad.

- Mae yna gamddatganiadau sydd wedi'u cywiro gan Reolwyr sy'n cael eu tynnu i sylw'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu oherwydd eu bod yn berthnasol i'w cyfrifoldebau am y broses adrodd ariannol. Mae'r rhain hefyd wedi'u nodi gydag esboniadau yn Atodiad 3.
- Rhoes y Cynllun Archwilio Ariannol wybodaeth am y risgiau archwilio sylweddol a nodwyd yn ystod proses gynllunio'r Archwilwyr. Mae'r tabl yn adran 12 yr adroddiad yn nodi canlyniad gweithdrefnau archwilio'r Archwilwyr mewn perthynas â'r risgiau hynny. Cynhaliwyd yr archwiliad yn unol â'r Cynllun Archwilio Ariannol.
- Yn ystod yr archwiliad, rhoddir ystyriaeth i nifer o faterion yn ansoddol a meintiol sy'n gysylltiedig â'r cyfrifon ac adroddir unrhyw faterion arwyddocaol i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu. Ni chodwyd unrhyw faterion o'r fath eleni.
- Nid oes gan yr Archwilwyr unrhyw bryderon ynghylch yr agweddau ansoddol ar arferion cyfrifyddu ac adrodd ariannol y Cyngor. Daeth yr Archwilwyr i'r casgliad bod polisïau ac amcangyfrifon cyfrifyddu yn briodol a datgeliadau datganiadau ariannol yn ddiduedd, yn deg ac yn glir.
- Ni chafwyd unrhyw faterion arwyddocaol yn ystod yr archwiliad.
- Nid oedd unrhyw faterion arwyddocaol y trafodwyd ac y gohebwyd yn eu cylch â Rheolwyr oedd yn ei gwneud yn ofynnol adrodd yn eu cylch.
- Nid oes unrhyw faterion eraill sy'n arwyddocaol i waith goruchwylio'r broses adrodd ariannol y mae angen adrodd arnynt.
- Ni nodwyd unrhyw wendidau perthnasol mewn rheolaethau mewnol er bod nifer o feysydd lle byddai'n bosib gwella rheolaethau wedi'u nodi ac fe'u hadroddir yn Atodiad 4 i'r adroddiad
- Nid oes unrhyw faterion eraill sy'n benodol ofynnol trwy archwilio safonau i'w cyfleu i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu.
- Mae'r argymhellion sy'n deillio o'r gwaith archwilio ariannol wedi'u nodi yn Atodiad 4 yr adroddiad. Mae'r rheolwyr wedi ymateb iddynt a bydd cynnydd ar eu gweithrediad yn cael ei ddilyn ac adroddir arno yn ystod archwiliad y flwyddyn nesaf.

Rhoes y Pwyllgor ystyriaeth i'r wybodaeth a gyflwynwyd a gwnaeth bwyntiau fel a ganlyn –

- Nododd y Pwyllgor fod y cyfrifon wedi eu cwblhau unwaith eto yn unol â'r amserlen statudol ac y dylid diolch i staff y Gwasanaeth Cyllid am eu gwaith yn sicrhau bod y dyddiad cau ar gyfer y cyfrifon yn cael ei fodloni.
- Nododd y Pwyllgor fod yr Archwilwyr Allanol yn fodlon ag ansawdd arferion cyfrifyddu a datganiadau ariannol y Cyngor ac mai barn yr Archwilwyr yw bod y datganiadau ariannol wedi'u paratoi'n gywir a'u bod yn rhoi golwg cywir a theg o sefyllfa ariannol y Cyngor hyd at 31 Mawrth 2018.
- Nododd y Pwyllgor nad oedd unrhyw brif faterion wedi codi yn ystod yr archwiliad.
- Nododd y Pwyllgor fod dau gamddatganiad y mae'r Rheolwyr wedi dewis peidio â'u cywiro. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad pellach ynghylch pam y gallai'r camddatganiadau hyn barhau heb eu haddasu ac ai dyma'r dull gweithredu cywir o ystyried bod gofyn i'r cyfrifon sy'n gymhleth beth bynnag, fod mor eglur a mor dryloyw â phosib er lles y rhai sy'n eu darllen.
- Eglurodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 nad yw cyfrifeg yn wyddoniaeth fanwl ac, weithiau, mai mater o farn yw sut yr ymdrinnir ag eitem ynghylch sut mae'r côd ymarfer a'r rheoliadau perthnasol yn cael eu dehongli. Mae barn y Rheolwyr a gwaith yr Archwiliwr Allanol ar sut y dylid ymdrin â'r ddwy eitem sydd wedi'u cam-ddatgan yn wahanol. Fodd bynnag, mae'r Rheolwyr wedi

dewis peidio â gwneud yr addasiadau a awgrymwyd oherwydd nad yw'r ddwy eitem fel y cyfrifwyd amdanynt yn cael unrhyw effaith sylweddol ar y cyfrifon.

- Dywedodd Mr Ian Howse mai tasg yr archwilwyr yw asesu a yw’r ymdriniaeth o’r ddwy eitem dan sylw yn gwneud gwahaniaeth i sut mae pobl yn darllen a dehongli'r cyfrifon. Mae'r archwilwyr yn gweithio i swm o £5 miliwn sy'n golygu pe bai gwahaniaeth barn dros drin eitem / eitemau y byddai eu gwerth yn fwy na £5m yna byddai'n rhaid datrys hynny ar y sail mai barn yr archwilwyr yw y byddai hyn yn dylanwadu ar farn darllenwyr y cyfrifon ar yr hyn sy'n digwydd. Nid yw eitemau sydd am lai na £5m yn debygol o newid yn sylweddol farn y darllenwyr am bethau yng nghynllun cyffredinol asedau a rhwymedigaethau cyffredinol y Cyngor. Dywedodd y Swyddog fod y broses archwilio’n broses drylwyr iawn ac wedi ei chryfhau yn dilyn yr argyfwng ariannol. Mae'r cywiriadau a amlygir gan yr archwilwyr yn ymwneud â dyfarniadau a symud eitemau rhwng llinellau yn y fantolen ac, yn y pen draw, nid ydynt yn cael effaith ar falansau arian parod y Cyngor.
- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch a ddylid ymdrin â thaliad i Gronfa Bensiwn Gwynedd fel eitem gwariant.

- Cadarnhaodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 fod y taliad yn eitem gwariant, ond wrth ddrafftio'r cyfrifon, codwyd un rhan o dair y taliad o £ 3.66m ar y cyfrif refeniw gyda'r ddwy ran o dair oedd yn weddill yn cael eu trin fel cyn-daliad am flynyddoedd 2 a 3 h.y. 2018/19 a 2019/20. Ymdriniodd yr Actiwari â’r cyfraniad fel gwariant yn 2017/18, sy'n gwneud ymdriniaeth yr Awdurdod ag o’n anghywir. O ganlyniad, mae'r £ 3.66m lawn wedi'i godi ar y cyfrif refeniw yn 2017/18, ond er mwyn lliniaru effaith y gwariant hwn ar gydbwysedd cronfa gyffredinol y Cyngor, mae cronfa wrth gefn negyddol wedi'i chreu ac o hon mae £2.4 miliwn o'r £3.6 wedi’i ariannu a chaiff ei ddiddymu dros y ddwy flynedd nesaf. Felly, ymdriniwyd â'r taliad fel gwariant ond mewn modd sy'n lleihau'r effaith ar y balansau cyffredinol wrth beidio â gwneud unrhyw wahaniaeth i gronfeydd wrth gefn net y Cyngor.

- Nododd y Pwyllgor fod y Fantolen yn dangos bod cymhareb arian cyfredol y Cyngor bellach yn llai nag 1. Mae'r Pwyllgor yn nodi ymhellach mai strategaeth y Cyngor yw defnyddio balansau arian parod i ariannu rhan o'i wariant cyfalaf er mwyn osgoi benthyca, oherwydd bod yr enillion ar fuddsoddiad yn wael. Nododd y Pwyllgor hefyd fod balansau arian parod bellach wedi gostwng i raddau ei bod yn debygol y bydd yn rhaid i'r Cyngor fenthyca er mwyn bodloni ei anghenion gwariant. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch a yw hyn yn ddull doeth.

- Dywedodd Mr Ian Howse fod y ffyrdd y gall Cynghorau gael mynediad at arian e.e. trwy'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus yn golygu nad yw'n anodd benthyca. Oherwydd bod cyllid ar gael yn hawdd, nid yw sut mae'r Cyngor yn dewis gwneud hynny na’r balans o sut mae'n defnyddio'r arian hynny ar gyfer cyfalaf a refeniw yn achosi pryder gormodol oherwydd bod cyllid ar gael.

- Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Adran 151 bod y Cyngor yn benthyca i ailgyflenwi'r arian a ddefnyddiwyd at ddibenion cyfalaf. Mae'r Cyngor wedi bod yn defnyddio balansau arian parod i ariannu gwariant cyfalaf oherwydd gan fod cyfraddau llog yn parhau’n isel, mae defnyddio arian parod i osgoi benthyca allanol yn cynnig gwell enillion nac arian parod wrth adneuo.

  Nododd y Pwyllgor ei bod yn anodd cael darlun o berfformiad ariannol y Cyngor o'r Datganiad Cyfrifon. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad a fyddai’n bosib meincnodi perfformiad y Cyngor yn erbyn awdurdodau lleol eraill sydd o faint tebyg i gael gwell dealltwriaeth o'r hyn y gellid ei ddisgwyl ohono o ran perfformiad ariannol.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 y byddai'n anodd dod o hyd i awdurdod cymharol i allu cymharu tebyg at ei debyg, a hynny oherwydd nifer o ffactorau yn cynnwys maint, lleoliad a daearyddiaeth. Er bod cynghorau yng Nghymru yn gweithredu o fewn fframwaith deddfwriaethol a rheoleiddiol cyffredin, mae ganddynt wahanol ddulliau o ymdrin â gwahanol faterion yn dibynnu ar anghenion a blaenoriaethau lleol, e.e. allanoli gwasanaethau, cymhwyso cyflog cenedlaethol, gweithredu Arfarniadau Swyddi sy'n arwain at ganlyniadau gwahanol ym mhob cyngor. Er bod meincnodi yn cael ei wneud ar gyfer gwasanaethau unigol, yn fyd-eang mae'n broblem oherwydd ei bod hi'n anodd gwneud cymhariaeth sy'n ddigon ystyrlon i alluogi Rheolwyr i wneud newidiadau ar y sail honno.

**Penderfynwyd –**

- **Derbyn a nodi'r Datganiad Cyfrifon am 2017/18 ac argymell i'r Cyngor Llawn eu derbyn.**
- **Nodi Adroddiad yr Archwiliwr Allanol ar y Datganiadau Ariannol am 2017/18.**
- **Cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol am 2017/18 a chyfeirio'r Datganiad at Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr i'w lofnodi.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL**

**9. ADOLYGU CYLCH GORCHWYL Y PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg yn cynnwys Cylch Gorchwyl drafft diwygiedig y Pwyllgor i'r Pwyllgor ei ystyried a'i gymeradwyo.

Adroddodd y Pennaeth Archwilio a Risg fel a ganlyn –

- Y bu nifer o ddatblygiadau arwyddocaol mewn arferion llywodraethu ac archwilio ers i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor gael ei adolygu ddiwethaf ym mis Chwefror 2015, gan gynnwys cyflwyno'r Fframwaith Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol (CIPFA / Solace, 2016).
- Bod canllawiau CIPFA yn arfer gorau ar gyfer pwyllgorau archwilio mewn awdurdodau lleol ledled y Deyrnas Unedig. Cyhoeddodd ei ganllaw newydd ym Mai, 2018 ac fe'i trafodwyd gan aelodau'r Pwyllgor hwn mewn gweithdy a gynhaliwyd 13 Mehefin 2018.
- Bod y canllawiau diwygiedig yn diweddaru swyddogaethau craidd y pwyllgor archwilio mewn perthynas â llywodraethu, rheoli risg, rheolaeth fewnol ac archwilio. Mae CIPFA hefyd wedi diweddaru rôl y pwyllgor archwilio mewn perthynas â gwrth-dwyll i adlewyrchu'r Côd Ymarfer ar Reoli'r Risg o Dwyll a Llygredd. Mae'r arweiniad yn parhau i ganolbwyntio llawer ar y ffactorau sy'n cefnogi gwelliant, yn eu plith y wybodaeth a'r sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer aelodau'r pwyllgor archwilio, yn ogystal â meysydd lle gall y pwyllgor ychwanegu gwerth.
- Bod y canllawiau wedi'u cynnwys yn y cylch gorchwyl yn bennaf, ar wahân i'r gofyniad bod y Cyngor Llawn yn cymeradwyo penodi Aelodau Lleyg. Roedd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn pryderu, oherwydd amserlennu pwyllgorau, y byddai oedi wrth benodi'r Aelodau Lleyg tan gyfarfod y Cyngor Llawn hefyd yn oedi'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gyda goblygiadau i fodloni'r dyddiad cau ar gyfer adrodd a chymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon drafft. Felly, mae'r ddarpariaeth flaenorol bod Aelodau Lleyg yn cael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn parhau.
- Wrth ddatblygu'r cylch gorchwyl, cymerwyd cyfrif o reoliadau a chanllawiau penodol sy'n briodol i'r Cyngor. Ymgynghorwyd â'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro

a gweddill yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth. Ymgynghorwyd â dau Aelod Lleyg y Pwyllgor hefyd.

**Penderfynwyd cymeradwyo Cylch Gorchwyl diwygiedig y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu fel y'i cyflwynwyd ac argymell yr un peth i'r Pwyllgor Gwaith.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU YCHWANEGOL**

## 10. ARCHWILIO ALLANOL: SAFBWYNT DEFNYDDWYR GWASANAETHAU – SAFON ANSAWDD TAI CYMRU – CYNGOR SIR YNYS MÔN

Cyflwynwyd adroddiad yr Archwiliwr Allanol ar ganlyniad ei adolygiad o brofiadau tenantiaid Tai Cyngor Ynys Môn mewn perthynas â chyflwyno Safon Ansawdd Tai Cymru i'r Pwyllgor ei ystyried.

Adroddodd Mr Gwilym Bury, Swyddfa Archwilio Cymru ar y prif faterion fel a ganlyn –

- Yn 2017/8, roedd Swyddfa Archwilio Cymru yn cydweithio i ddeall "safbwynt y defnyddiwr gwasanaeth" ym mhob Cyngor yng Nghymru. Dilynwyd dull gweithredu eithaf tebyg ym mhob cyngor, er y cytunwyd â phob cyngor yn unigol ynghylch beth y canolbwyntid arno a'r dull gweithredu. Yng Nghyngor Sir Ynys Môn, adolygwyd y Gwasanaeth Tai ac, yn benodol, ymgysylltiad tenantiaid â chyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru a faint o ddewis sydd ganddynt yn rhan o hyn, a'u barn ar ansawdd y gwasanaeth y maent yn ei gael gan y Cyngor.
- I bwrpas yr adolygiad, siaradodd yr archwilwyr â sampl o 119 o denantiaid trwy arolwg carreg drws. Er nad oedd hi'n bosib siarad â phawb, roedd dwyn i mewn sampl o ddefnyddwyr gwasanaeth wedi helpu i gael gwell dealltwriaeth o'u persbectif. Yn ogystal, cynhaliwyd grŵp ffocws gyda Grŵp Llais Tenantiaid a Swyddogion Môn ac ymwelwyd â'r rhan fwyaf o stadau tai'r Cyngor.
- At ei gilydd, canfu'r adolygiad fod rhan fwyaf o denantiaid y Cyngor yr oedd yr archwilwyr yn siarad â nhw'n fodlon ag ansawdd y gwasanaeth, ond roeddent yn ymwneud llai â dylunio gwasanaethau nag a fu, ac nid yw'r Cyngor bob amser wedi gwerthuso effaith newidiadau i'r gwasanaeth. Daethpwyd i'r casgliad hwn oherwydd -

- Cyn 2015, roedd y Cyngor yn dwyn tenantiaid i mewn yn effeithiol wrth gynllunio gwasanaethau ar Safon Ansawdd Tai Cymru, ond mae cyfranogiad tenantiaid wedi gostwng ers hynny.
- Mae'r rhan fwyaf o denantiaid y Cyngor yn fodlon ag ansawdd y gwasanaeth er bod 37% o'r tenantiaid yn teimlo'u bod wedi cael problemau gyda thamprwydd a chyddwysiad yn eu cartref. Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi cynnal arolwg tebyg yn ystod y 12 mis diwethaf ym mhob un o'r 11 cyngor yng Nghymru oedd yn cadw eu stoc dai ac mae hwn yn un o'r canrannau uchaf o ran tenantiaid yn adrodd am broblemau gyda lleithder a chyddwysiad yn eu cartrefi.
- Gall tenantiaid gael mynediad at y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt ond nid yw'r Cyngor bob amser wedi gwerthuso'r newidiadau y mae wedi'i wneud i gael mynediad at fodelau a safonau gwasanaeth ar gyfer tai gwarchod. Dywedodd llawer o denantiaid y tai gwarchod yr oedd yr archwilwyr yn siarad â nhw eu bod yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth tai ac yn hapus yn eu cartrefi. Fodd bynnag, maent yn teimlo, er eu bod yn cael gwybod am newidiadau, bod lefel y gwasanaeth wedi gostwng ac na wrandewir ar eu barn bob amser. Roedd y tenantiaid y siaradwyd â nhw'n gresynu y gwnaed i ffwrdd â gwasanaeth penodol ar-y-safle y warden ac roedd rhai yn teimlo'n unig ac ynysig o'r herwydd. Mewn dau gynllun yr ymwelwyd â nhw, mae'r trefniadau ar gyfer y gwasanaeth larwm tân, lle mae wardeniaid a ddefnyddir i chwarae rôl wrth wirio ac ailsefydlu larymau, yn bryder i rai tenantiaid. Dywedwyd wrth yr archwilwyr ei bod weithiau'n cymryd dros awr i rai contractwyr allanol eu hailosod ac nad oedd sylw'n cael ei roi i'w pryderon.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r adolygiad, gwnaed y cynigion a ganlyn ar gyfer gwelliant -

- Dylai'r Cyngor weithio gyda thenantiaid i adolygu ei ddull gweithredu wrth gynorthwyo pobl sy'n dioddef problemau â chyddwysiad a thamprwydd, a
- Dylai'r Cyngor weithio gyda thenantiaid i adolygu effaith tymor hir dirwyn gwasanaeth y warden preswyl i ben o'i gynlluniau tai gwarchod.
- Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Tai fod y Gwasanaeth yn gweithio i gynnal Safon Ansawdd Tai Cymru y bu iddo ei bodloni yn 2012. Un o'r meysydd y mae'r gwasanaeth yn gweithio arno yw'r wybodaeth a gedwir mewn perthynas â methiannau derbyniol h.y. tai lle nad yw elfen(nau) unigol o Safon Ansawdd Tai Cymru ar gyfer rhesymau caniataol penodol wedi'u cyflawni ond sydd, fel arall, yn cydymffurfio. Ar hyn o bryd, mae'r Gwasanaeth yn cynnal arolygiadau ar yr anheddau hynny ac maent wedi bod yn canolbwyntio ar leihau nifer y methiannau derbyniol ymhlith ei stoc dai. Bwriad y Gwasanaeth y flwyddyn nesaf yw cynnal arolwg cyflawn o gyflwr y stoc fel y gall gael gwell dealltwriaeth o unrhyw feysydd lle mae angen iddo ganolbwyntio arnynt. O ran nifer y tenantiaid oedd yn pryderu am damprwydd yn eu cartrefi, nid yw 37% o'r 119 o denantiaid y siaradwyd â nhw yn nifer arbennig o uchel ac mae'n lleihau'r broblem i oddeutu 40 o denantiaid. Ffactorau ffordd o fyw e.e. mae tenantiaid nad ydynt yn gwresogi eu cartrefi neu ddim yn agor ffenestri i awyru eu cartrefi yn ystyriaeth wrth addysgu tenantiaid ar sut i ymdrin â'r mater a gwella'r broblem ac mae'r rhain yn uchel ar agenda'r Gwasanaeth. Yn yr achosion gwaethaf, gall y Gwasanaeth osod unedau dadleithio arbenigol i gael gwared â thamprwydd. Fodd bynnag, nid yw nifer y cwynion am damprwydd yn arbennig o uchel yng nghyd-destun y cwynion y mae'r Gwasanaeth yn eu derbyn.

Rhoes y Pwyllgor ystyriaeth i'r wybodaeth a gyflwynwyd a gwnaeth bwyntiau fel a ganlyn –

- Nododd y Pwyllgor fod adroddiad yr Archwiliwr Allanol yn cydnabod bod rhaglen Safon Ansawdd Tai Cymru'r Cyngor wedi llwyddo i godi ansawdd tai a bod arolwg Swyddfa Archwilio Cymru gyda thenantiaid yn dangos bod pobl, yn gyffredinol, yn fodlon iawn ag ansawdd y gwasanaeth tai; eu bod yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth tai yn fawr a bod llawer wedi gwneud sylw ynghylch lefel uchel y gwasanaeth cwsmeriaid y mae'r rhan fwyaf o'r staff tai yn ei roi.
- Nododd y Pwyllgor fod 37% o denantiaid wedi codi pryderon ynghylch problemau gyda thamprwydd a chyddwysiad yn eu cartrefi. Nododd y Pwyllgor hefyd fod hwn yn fater cymhleth gydag achosion lluosog; a nododd ymhellach fod adroddiad yr Archwiliwr Allanol yn derbyn bod y Cyngor yn adolygu ei broses ar gyfer ymchwilio i adroddiadau am damprwydd a chyddwysiad a'r bwriad yw y bydd syrfewyr, yn y dyfodol, yn casglu mwy o wybodaeth am dai mewn cartrefi ac yn codi ymwybyddiaeth ar sut i osgoi cyddwysiad a gwneud i ffwrdd ag o drwy nifer o sianeli y mae'r Gwasanaeth yn eu defnyddio i ymgysylltu â'i denantiaid. Cadarnheir y dull gweithredu hwn gan Bennaeth y Gwasanaethau Tai.
- Nododd y Pwyllgor y sylwadau a wnaed gan lawer o denantiaid tai gwarchod y Cyngor am deimlo'n unig ac ynysig yn dilyn dirwyn i ben wasanaeth penodol ar-y-safle y warden ac roedd yn bryderus yn ei gylch. Roedd y Pwyllgor yn arbennig o bryderus ynghylch y trefniadau ar gyfer y gwasanaeth larwm tân yn y ddau gynllun tai gwarchod yr ymwelwyd â nhw oherwydd y risgiau posib sy'n deillio o'r oedi wrth ailosod larymau nawr bod y gwaith hwn yn cael ei wneud gan gontractwyr allanol lle'r oedd ynghynt yn rhan o rôl y warden.
- Pwysleisiodd y Pwyllgor bwysigrwydd cynlluniau tai gwarchod y Cyngor fel rhan o'i agenda ataliol lle mae pobl hŷn a allai, fel arall, orfod mynd i ofal preswyl yn derbyn cefnogaeth briodol i fyw'n annibynnol. Tynnodd y Pwyllgor sylw at y ffaith bod angen cynnal safonau gwasanaeth er mwyn i gynlluniau tai gwarchod fod yn effeithiol.

DRAFT

Cadarnhaodd y Pwyllgor gynnig yr Archwiliwr Allanol y dylid asesu effaith tymor hir dirwyn i ben y gwasanaeth warden ac argymhellwyd bod y Gwasanaeth Tai yn cynnal adolygiad ôl-weithredu o ddirwyn i ben wasanaeth penodol ar-y-safle y warden yn ei gynlluniau tai gwarchod.

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Tai fod y gwasanaeth warden, i bob pwrpas, wedi'i allanoli gyda chymorth symudol yn cael ei gomisiynu trwy'r rhaglen Cefnogi Pobl, sef un o'r penderfyniadau a wnaed gan y Cyngor wrth ddirwyn ei wasanaeth warden i ben. Felly, mae gwasanaeth symudol ar gael i unigolion y mae angen cymorth arnynt ond mae'r ddarpariaeth hon yn ymestyn y tu hwnt i denantiaid y Cyngor ac mae ar gael i berchnogion eiddo a rhai sy'n rhentu yn y sector preifat. Mae'n canolbwyntio ar anghenion unigol yn hytrach nag ar gynllun tai.

**Penderfynwyd derbyn adroddiad yr Archwiliwr Allanol ar Bersbectif y Defnyddiwr Gwasanaeth mewn perthynas â Safon Ansawdd Tai Cymru yng Nghyngor Sir Ynys Môn a nodi ei gynnwys.**

**GWEITHREDIAD YCHWANEGOL ARFAETHEDIG – Bod y Gwasanaeth Tai yn cynnal adolygiad ôl-weithredu o ddirwyn i ben wasanaeth penodol ar-y-safle y warden yn ei gynlluniau tai gwarchod.**

**11. ARCHWILIO ALLANOL: ADRODDIAD GWELLA BLYNYDDOL CYNGOR SIR YNYS MÔN 2017/18**

Cyflwynwyd adroddiad yr Archwiliwr Allanol oedd yn crynhoi'r gwaith archwilio ac asesu a wnaed ac yr adroddwyd arno yn ystod 2017/18 mewn perthynas â'r Cyngor, gan gynnwys y casgliadau a'r cynigion ar gyfer gwella i bob adroddiad a gyhoeddwyd, i'r Pwyllgor ei ystyried.

Cadarnhaodd Mr Gwilym Bury, Swyddfa Archwilio Cymru fod Archwiliwr Cyffredinol Cymru yn credu bod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (2009) yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol yn 2018/19 ac yn gyfyngedig i'r gwaith hwn, mewn perthynas â gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Nid oes unrhyw adolygiadau o'r Cyngor wedi'u cynnal gan Estyn nac Arolygiaeth Gofal Cymru yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad.

**Penderfynwyd derbyn Adroddiad Gwella Blynyddol 2017/18 yr Archwiliwr Allanol ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn a nodi'r cynnwys.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU YCHWANEGOL**

**12. SIARTER ARCHWILIO MEWNOL**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg yn cynnwys Siarter Archwilio Mewnol wedi'i ddiweddaru i'r Pwyllgor ei ystyried a'i gymeradwyo.

Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg y cynhaliwyd adolygiad i sicrhau bod priodoldeb parhaus y Siarter Archwilio wedi nodi'r ddau fân newid a ganlyn, er nad yw'n amser cael adolygiad ffurfiol llawn tan fis Ebrill 2020.

- Bwled gyntaf paragraff 10 - cynnwys Aelodau Lleyg yn unol â'r statws cyfartal a roddwyd i Aelodau Lleyg yng Nghylch Gorchwyl cyfredol y Pwyllgor.
- Paragraff 11 - cywiro gwall yn nyddiad y rheoliadau a'i newid ar gyfer deddfwriaeth newydd fel y manylir yn yr adroddiad.



DRAFT

**Penderfynwyd cymeradwyo'r gwelliannau i'r Siarter Archwilio Mewnol fel y'i cyflwynwyd.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU YCHWANEGOL**

## 13. BLAENRAGLEN WAITH

Cyflwynwyd Rhaglen Waith y Pwyllgor iddo ei hadolygu a rhoi sylwadau arni.

Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg y byddai Rhaglen Waith y Pwyllgor yn debygol o ehangu o ganlyniad i'r newidiadau i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor oedd yn golygu y byddai hefyd yn newid yn y dyfodol.

**Penderfynwyd derbyn y Rhaglen Waith i'r Dyfodol fel y'i cyflwynwyd heb ei diwygio.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU YCHWANEGOL**

## 14. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

**"O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gall olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd amgaeedig."**

## 15. Y GOFRESTR RISG GORFFORAETHOL

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg oedd yn cynnwys y Gofrestr Risg Gorfforaethol ddiwygiedig, i'r Pwyllgor ei ystyried.

Adroddodd y Rheolwr Risg ac Yswiriant bod yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth wedi adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol 10 Medi, 2018 ac fe'i diweddarwyd i adlewyrchu eu sylwadau a'u barn yn y cyfarfod hwnnw. Ers cyflwyno'r Gofrestr Risg Corfforaethol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu diwethaf, cafodd y feddalwedd 4Risk ei chaffael fel ffordd o wella gwaith cofnodi a monitro risgiau ledled y Cyngor. Mae symud i'r system 4Risk wedi arwain at newidiadau i gyfeiriadau risg rhai risgiau.

Tynnodd y Swyddog sylw at y newidiadau yn y Gofrestr a ddiweddarwyd, fel a ganlyn –

- Mae Risg YM35 wedi'i thynnu oddi ar y Gofrestr ar y sail bod y risg wedi dod i'r wyneb a chaiff bellach ei hystyried yn broblem yn hytrach na risg.
- Mae perygl pum risg (YM20, YM23, YM26, YM29 ac YM33 wedi'i ostwng oherwydd bod y tebygolrwydd y byddant yn digwydd a / neu debygolrwydd eu heffaith wedi lleihau.
- Mae dwy risg newydd (YM38 ac YM39) wedi'u hychwanegu at y Gofrestr.
- Y risgiau coch uchaf i'r Cyngor yw'r tair risg a nodir ym mharagraff 12 yr adroddiad.

Rhoes y Pwyllgor ystyriaeth i'r wybodaeth a gyflwynwyd a gwnaeth bwyntiau fel a ganlyn -

- Nododd y Pwyllgor y caiff Risg YM11 ei dosbarthu fel C1 o ran risg gynhenid, ac nad yw cyflwyno rheolaethau risg wedi cael unrhyw effaith ar statws risg weddilliol YM11 sydd heb ei newid yn C1. Nododd y Pwyllgor ymhellach y gallai gweithredu'r rheolaethau risg fod wedi disgwyl arwain at israddio statws risg weddilliol YM11.



DRAFT

Eglurodd y Rheolwr Risg ac Yswiriant fod YM11 yn risg y mae rheolaethau ar waith ar ei chyfer a phe na fyddent wedi'u rhoi ar waith byddai'n debygol o olygu y byddai'n rhaid uwchraddio lefel y risg gynhenid.

• Nododd y Pwyllgor y gallai defnyddio cyfuniad o lythrennau a rhifolion i ddosbarthu risgiau fod yn ddryslyd.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor bod y meini prawf ar gyfer dynodi risgiau wedi'u cymeradwyo gan yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth, sydd o'r farn bod modd cyfleu'r un pryd y tebygolrwydd o risg yn dod i'r wyneb, a hynny trwy ddefnyddio llythrennau a rhifolion (llythyren - gydag A yn dynodi'r tebygolrwydd uchaf) yn ogystal â'r effaith os bydd (rhif - gyda 1 yn dynodi'r effaith fwyaf).

**Penderfynwyd nodi cynnwys yr adroddiad a bod y Pwyllgor yn sicrhau bod y risgiau i nodau ac amcanion y Cyngor yn cael eu cydnabod a'u rheoli gan yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL**

**Y Cynghorydd Peter Rogers**
**Cadeirydd**

DRAFFT

This page is intentionally left blank

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Trosolwg a Chraffu – Addas ar gyfer y Dyfodol? – **Cyngor Sir Ynys Môn**

Blwyddyn archwilio: 2017-18

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2018

Cyfeirnod y ddogfen: 793A2018-19

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Sir Ynys Môn yn rhan o waith a berfformiwyd/ a gaiff ei berfformio yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb o ran unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, neu unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, a, pan fo'n berthnasol, yr archwilydd penodedig, yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Charlotte Owen, Alan Hughes a Jeremy Evans dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

Mae'r Cyngor wedi cryfhau ei swyddogaeth trosolwg a chraffu, ac mae'n gwneud trefniadau i fodloni heriau'r dyfodol.


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Cynigion ar gyfer gwella 5

Mae'r Cyngor wedi cryfhau ei swyddogaeth trosolwg a chraffu, ac mae'n gwneud trefniadau i fodloni heriau'r dyfodol 6

Mae'r Cyngor yn cefnogi trosolwg a chraffu, ac mae'r trefniadau sydd eu hangen i helpu aelodau pwyllgorau trosolwg a chraffu i fodloni heriau'r dyfodol yn cael eu rhoi ar waith 6

Mae arfer pwyllgorau trosolwg a chraffu yn gwella, mae'r amrywiaeth o ffynonellau tystiolaeth y maent yn eu defnyddio wedi cynyddu, ac mae blaenraglenni gwaith y pwyllgorau craffu yn alinio â gwaith y Weithrediaeth 8

Mae'r swyddogaeth trosolwg a chraffu yn cyfrannu at welliannau mewn perfformiad a gwneud penderfyniadau, ac mae'r Cyngor yn gwerthuso ei effeithiolrwydd yn rheolaidd 9

Atodiadau

Atodiad 1 – canlyniadau a nodweddion trefniadau trosolwg a chraffu effeithiol i lywodraeth leol 11

Atodiad 2 – argymhellion o adroddiad astudiaeth wella Archwilydd Cyffredinol Cymru 'Craffu Da? Cwestiwn Da' (Mai 2014) 13

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

1 Archwiliodd yr adolygiad hwn ym mhob un o'r 22 o gynghorau yng Nghymru ba mor 'addas ar gyfer y dyfodol' yw eu swyddogaethau craffu. Gwnaethom ni ystyried sut y mae cynghorau yn ymateb i heriau presennol, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 o ran eu gweithgareddau craffu, yn ogystal â sut y mae cynghorau yn dechrau craffu ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Gwnaethom ni hefyd archwilio a yw'r cynghorau mewn sefyllfa dda i allu ymateb i heriau'r dyfodol, fel pwysau parhaus ar gyllid cyhoeddus, a'r posibilrwydd o symud tuag at fwy o weithio rhanbarthol rhwng awdurdodau lleol.

2 Yn rhan o'r adolygiad gwnaethom ni hefyd adolygu'r cynnydd y mae cynghorau wedi'i wneud wrth fynd i'r afael â'r argymhellion yn ein Hastudiaeth Wella Genedlaethol **Craffu Da? Cwestiwn Da?** (Mai 2014) (gweler Atodiad 2). Gwnaethom ni hefyd waith dilynol ar y cynigion ar gyfer gwella sy'n berthnasol i'r gwaith craffu y gwnaethom eu cyhoeddi mewn adroddiadau lleol, gan gynnwys y rhai a gyflwynwyd i gynghorau yn rhan o'n hadolygiadau thematig yn 2016-17 o Gynllunio Arbedion a Llywodraethu Da wrth Benderfynu ar Newidiadau Sylweddol mewn Gwasanaethau.

3 Nod ein hadolygiad oedd:

- nodi dulliau o sefydlu'r egwyddor datblygiad cynaliadwy mewn prosesau ac arferion craffu i gyfrannu at rannu arferion a gwaith yr Archwilydd Cyffredinol yn y dyfodol mewn cysylltiad â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf LlCD);
- darparu sicrwydd bod swyddogaethau craffu mewn sefyllfa dda i ymateb i heriau a disgwyliadau'r presennol a'r dyfodol;
- helpu aelodau etholedig i sefydlu arferion craffu effeithiol o ddechrau cylch etholaethol newydd; a
- darparu dirnadaeth o ba mor dda y mae cynghorau wedi ymateb i ganfyddiadau ein Hastudiaeth Gwella Craffu blaenorol.

4 I lywio ein canfyddiadau, gwnaethom ni seilio ein dull o adolygu ar y Canlyniadau a Nodweddion Trefniadau Trosolwg a Chraffu Effeithiol i Lywodraeth Leol a ddatblygwyd ac a gytunwyd gan randdeiliaid craffu yng Nghymru yn dilyn ein Hastudiaeth Wella Genedlaethol **Craffu Da? Cwestiwn Da?**

5 Yn ystod Tachwedd 2017 hyd at Ionawr 2018 gwnaethom adolygu dogfennau, cynnal cyfweliadau a chynnal grwpiau ffocws gyda swyddogion a chynghorwyr allweddol er mwyn deall eu barn ar drefniadau presennol Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) ar gyfer craffu. Yn benodol, sut y mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â'r heriau a nodir uchod a sut y mae'n bwriadu ymateb iddynt.

6 Gwnaethom ni arsylwi ar sampl o gyfarfodydd trosolwg a chraffu ac adolygu dogfennau cyfarfodydd perthnasol a roddwyd i aelodau pwyllgorau i gefnogi eu swyddogaeth graffu, fel adroddiadau a chyflwyniadau.

7 Yn yr adolygiad hwn, daethom i'r casgliad fod **y Cyngor wedi cryfhau ei swyddogaeth trosolwg a chraffu ac mae'n gwneud trefniadau i wynebu heriau yn y dyfodol**. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- bod y Cyngor yn cefnogi trosolwg a chraffu, ac mae trefniadau sydd eu hangen i helpu aelodau pwyllgorau trosolwg a chraffu i fodloni heriau'r dyfodol yn cael eu rhoi ar waith;
- mae arfer pwyllgorau trosolwg a chraffu yn gwella, mae'r amrywiaeth o ffynonellau tystiolaeth y mae'n eu defnyddio wedi cynyddu, ac mae blaenraglenni gwaith y pwyllgorau craffu yn alinio â gwaith y Weithrediaeth; ac
- mae'r swyddogaeth trosolwg a chraffu yn cyfrannu at welliannau mewn perfformiad a gwneud penderfyniadau, ac mae'r Cyngor yn gwerthuso ei effeithiolrwydd yn rheolaidd.

# Cynigion ar gyfer gwella

8 Mae'r tabl isod yn cynnwys ein cynigion ar gyfer ffyrdd y gallai'r Cyngor wella effeithiolrwydd ei swyddogaeth trosolwg a chraffu i'w roi mewn gwell sefyllfa i fodloni heriau'r presennol a'r dyfodol.

Arddangosyn 1: cynigion ar gyfer gwella

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| **C1** | **Dylai swyddogaeth trosolwg a chraffu y Cyngor wella ymhellach trefniadau ar gyfer hyrwyddo ymgysylltiad y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill mewn gweithgareddau craffu.** |
| **C2** | **Dylai'r Cyngor ategu ei brofiad drwy hunanasesu ychwanegol, er mwyn ystyried dulliau mwy arloesol o gynnal gweithgareddau craffu.** |

# Mae'r Cyngor wedi cryfhau ei swyddogaeth trosolwg a chraffu ac mae'n gwneud trefniadau i wynebu heriau'r dyfodol

## Mae'r Cyngor yn cefnogi trosolwg a chraffu, ac mae trefniadau sydd eu hangen i helpu aelodau pwyllgorau trosolwg a chraffu i fodloni heriau'r dyfodol ar waith

9 Cyfansoddiad y Cyngor sy'n diffinio'r swyddogaeth trosolwg a chraffu yn y Cyngor. Mae dau bwyllgor craffu'r Cyngor yn cynnal gweithgareddau trosolwg a chraffu, gyda chefnogaeth tri phanel craffu. Mae trefniadau trosolwg a chraffu yn rhan gyfundrefnol o drefniadau llywodraethu'r Cyngor ac mae swyddogion a chynghorwyr yn eu hystyried yn werthfawr. Nodir swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Cynghorwyr mewn cysylltiad â chraffu yn glir yn y cyfansoddiad ynghyd â disgrifiadau swyddogaethau'r aelodau a'r cadeiryddion, ac mae'r rhaglen hyfforddi aelodau wedi galluogi y rhai sy'n ymwneud â'r swyddogaeth graffu i ddatblygu dealltwriaeth glir o'u swyddogaethau.

10 Gofynnodd y Cyngor i'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus[1] egluro swyddogaeth craffu yn nhrefniadau llywodraethu'r Cyngor. Mae Rhaglen Gwella Craffu'r Cyngor[2] yn nodi'r camau y mae angen i bwyllgorau craffu eu cymryd yn y tymor byr a'r tymor canolig er mwyn gwella perfformiad o ran craffu. Mae'n cydnabod bod craffu yn rhan bwysig o drefniadau llywodraethu'r Cyngor sy'n darparu her adeiladol fel "cyfaill beirniadol" er mwyn dylanwadu ar welliannau mewn polisïau a gwasanaethau.

11 Mae'r Cyngor yn darparu hyfforddiant ar sgiliau craffu a chadeirio effeithiol yn rhan o'r rhaglen cynefino ar gyfer cynghorwyr a rhaglen ddatblygu'r aelodau craffu. Mae'r Cyngor wedi ymgysylltu â darparwyr hyfforddiant allanol i ddatblygu gallu'r aelodau i gwestiynu yn effeithiol ac i ddadansoddi gwybodaeth a thystiolaeth a gyflwynir, ac maent wedi sicrhau gwasanaethau gan y Sefydliad Siartredig ar gyfer Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddu (CIPFA) er mwyn cael cymorth i ddatblygu capasiti aelodau'r pwyllgorau i ymgymryd â chraffu ariannol. Gwerthfawrogir yr hyfforddiant a ddarperir ymhlith yr aelodau a'r swyddogion, ac maent wedi sôn am yr effaith gadarnhaol a gafwyd ar allu'r aelodau i gwestiynu a chraffu'n effeithiol. Dywedodd sawl aelod pwyllgor eu bod wedi nodi gwelliant yn lefel yr herio a'u bod yn disgwyl i hyn barhau.

12 Mae'r Cyngor wedi cydnabod bod angen cryfhau'r gwaith o graffu ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ond mae eisoes wedi dechrau craffu ar elfennau o weithgareddau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gan gynnwys ei gynllun llesiant

[1] https://www.cfps.org.uk/

[2] http://www.anglesey.gov.uk/download/63274

drafft ym Mawrth 2018. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi cynllunio eitemau ychwanegol i archwilio gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ddiweddarach yn 2018 ac yn 2019, gan ei fod wedi cydnabod bod angen egluro a chryfhau'r gwaith craffu ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn. Mae cynllun gweithredu'r Rhaglen Gwella Craffu yn nodi'r angen i:

- ddatblygu blaenraglen waith y Pwyllgor Craffu ar Bartneriaethau ac Adfywio er mwyn adolygu'r trefniadau llywodraethu;
- canolbwyntio ar graffu ar effaith cydweithredu a gweithio mewn partneriaethau ar wasanaethau lleol;
- gweithredu fel ymgynghorydd statudol ar yr Asesiad Llesiant a'r Cynllun Llesiant;
- monitro'r cynnydd ar weithredu'r cynllun llesiant a chymryd rhan yn y cylch cynllunio; a
- daw manylion y ffrwd waith hon yn gliriach yn dilyn dyddiad cyhoeddi cynllun llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

13 Mae'r Pwyllgor Craffu ar Bartneriaethau ac Adfywio wedi ymgysylltu â chwe phartner yn ystod 2017-18, gan sicrhau y creffir ar weithio mewn partneriaeth ar draws amrywiaeth o wasanaethau'r Cyngor. Mae'r Cyngor wedi nodi bod angen blaenoriaethu a chanolbwyntio ar bartneriaethau strategol allweddol ac ystyried eu heffaith ar gyflawni gwasanaethau yn lleol. Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Craffu ar Bartneriaethau ac Adfywio ym mis Mehefin 2018 yn nodi partneriaethau allweddol a gafwyd yn ystod 2017-18, gan nodi nodweddion craffu effeithiol ar bartneriaethau, a nodi partneriaethau allweddol gan gynnwys y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i'w blaenoriaethu yn y flaenraglen waith ar gyfer y ddwy i dair blynedd nesaf.

14 Soniodd aelodau'r pwyllgor trosolwg a chraffu â pharch am y cymorth y maent yn ei gael gan y ddau swyddog cymorth craffu yn y Cyngor. Mae swyddogion cymorth craffu yn darparu cymorth ac yn helpu i hwyluso gwaith y cyfarfodydd craffu, ac maent yn hollbwysig wrth ddarparu cyfleoedd datblygu i aelodau. Gall y swyddogion, yn ôl yr angen, greu gwybodaeth briffio ychwanegol, sydd o gymorth i aelodau pwyllgorau wrth ddatblygu dealltwriaeth o'r pwnc y maent yn craffu arno. Mae swyddogion hefyd yn darparu cwestiynau craffu allweddol y gall aelodau pwyllgorau eu defnyddio os dymunent. Dywedodd sawl un ohonynt y bu hyn yn ddefnyddiol iawn yn gynnar yn eu swyddi fel aelodau craffu, ac o ganlyniad i hyn, roeddent yn gallu datblygu eu cwestiynau eu hunain wrth i'w profiad gynyddu. Roedd aelodau'r Pwyllgor yn gefnogol o'r trefniadau hyn a rhoddwyd clod i'r hwyluswyr am godi safon cyfarfodydd y pwyllgor.

15 Mae ansawdd y papurau y gwelsom yn cael eu cyflwyno i'r pwyllgor craffu yn dda yn gyffredinol, ac mae'r Templed Adroddiad Craffu yn darparu egwyddorion arweiniol ar gyfer yr aelodau craffu gan gynnwys cyfeiriadau at bum ffordd o weithio y Ddeddf LlCD. Roedd y Cynghorwyr yn ymwybodol bod capasiti y swyddogion yn gyfyngedig yn y swyddogaeth cymorth craffu a mynegwyd y farn y

gallai fod o fudd cael swyddog arall, ond cydnabuwyd hefyd bod anawsterau o ran adnoddau yn wynebu'r Cyngor.

16 Mae swyddogion a chynghorwyr yn dangos eu bod yn ymwybodol o'r heriau y bydd y swyddogaeth graffu yn eu hwynebu yn y dyfodol, megis cyllidebau is a rhagor o bwyslais ar weithio'n rhanbarthol. Mae'r Cyngor yn disgwyl i'r swyddogaeth graffu esblygu i allu bodloni heriau ariannol a rhanbarthol yn y dyfodol, ac mae'r flaenraglen waith yn cynnwys nifer o eitemau agenda ynglŷn â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a phartneriaethau.

## Mae arfer pwyllgorau trosolwg a chraffu yn gwella, mae'r amrywiaeth o ffynonellau tystiolaeth y maent yn eu defnyddio wedi cynyddu, ac mae blaenraglen waith y pwyllgorau craffu yn alinio â gwaith y Weithrediaeth

17 Mae gan bwyllgorau craffu flaenraglen waith benodol iawn, sy'n nodi'r llwyth gwaith ar gyfer chwe mis i flwyddyn ymlaen llaw. Wrth ddatblygu eu rhaglenni gwaith mae pwyllgorau yn ystyried gwybodaeth o lawer o ffynonellau gan gynnwys y Weithrediaeth, y Prif Weithredwr / y Tîm Uwch Arweinyddiaeth a'r Cynllun Corfforaethol yn ogystal â blaenoriaethau corfforaethol eraill. Mae prosesau blaengynllunio gwaith y Pwyllgor Craffu wedi gwella yn sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac mae'n ganlyniad i drafodaethau rhwng y Cadeiryddion a'r Is-gadeiryddion Craffu, yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr fel rhan o'r fforwm craffu. Cynhelir sesiynau briffio misol ar faterion strategol/gwasanaeth allweddol sy'n helpu i lunio'r blaenraglenni gwaith, ac mae'n eitem sefydlog ar agendau cyfarfodydd craffu.

18 Mae'r Blaenraglenni Gwaith Craffu yn ymwneud â gwella monitro yn bennaf, ac mae llai o bwyslais ar ddatblygu polisïau a chraffu cyn y gwneir penderfyniad. Mae'r Pwyllgorau craffu wedi lleihau nifer yr eitemau agenda ar gyfer swyddogion, Paneli, a phartneriaid allanol. Mae'r Pwyllgorau craffu yn cael eitemau agenda gan swyddogion, Paneli, a phartneriaid allanol. I gryfhau'r blaenraglenni gwaith ymhellach, mae angen i bwyllgorau ystyried y dull gorau o graffu, a allai fod y tu allan i leoliad pwyllgor.

19 Mae pwyllgorau trosolwg a chraffu yn herio aelodau arweiniol a swyddogion yn rheolaidd yn ogystal â'u dwyn i gyfrif. Nodir swyddogaeth aelodau mewn cysylltiad â chraffu yn glir yn nisgrifiadau swyddogaeth Aelodau Pwyllgor Craffu, a Chadeirydd y Pwyllgor Craffu. Mae'r aelod arweiniol perthnasol yn cyflwyno y rhan fwyaf o eitemau ar yr agenda a darperir cymorth a manylion pellach gan swyddogion.

20 Roedd y pwyllgorau craffu y gwnaethom arsylwi arnynt yn cael eu cynnal yn dda. Gwelsom enghreifftiau o herio cadarn a dadl ar sail gwybodaeth gadarn. Mae cadeiryddion yn annog yr aelodau i gymryd rhan ac yn sicrhau bod y trafodaethau yn parhau i ganolbwyntio ar y materion. Mae'r pwyllgorau craffu hefyd yn

blaenoriaethu eitemau agenda er mwyn caniatáu digon o amser ar gyfer y pynciau unigol.

21 Gwnaeth y Pwyllgor Craffu Corfforaethol ymdrech i gynnwys cyfraniadau allanol megis rhai gan bobl ifanc (Llais Ni) ac oedolion (y Panel Dinasyddion) yn y trefniadau i graffu ar gyllideb 2018-19, ac mae bellach yn rhan gynyddol bwysig o benderfyniadau allweddol yn y Cyngor ac fe'i blaenoriaethir felly e.e. pennu cyllidebau/moderneiddio ysgolion. Nid yw ymgysylltiad o'r fath wedi'i ymwreiddio'n llawn yn yr holl waith craffu.

22 Mae cyfraniad y cyhoedd at y prosesau trosolwg a chraffu yn fwy cyfyngedig yn gyffredinol, ac mae presenoldeb y cyhoedd mewn cyfarfodydd pwyllgorau yn brin ac yn gyfyngedig i faterion dadleuol. Nid yw cyfarfodydd yn cael eu hysbysebu yn nerbynfa'r Cyngor ac nid oes gweithdrefn glir ar gyfer croesawi'r cyhoedd. Nid yw'r Cyngor yn gweddarlledu cyfarfodydd eu pwyllgorau trosolwg a chraffu ychwaith. Er y ceir enghreifftiau o ymgysylltu â'r cyhoedd yn y prosesau craffu, mae lle i'r Cyngor ddefnyddio 10 Egwyddor Cyfranogaeth Cymru ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd, wrth wella'r ffordd y mae'r prosesau craffu yn ymgysylltu â'r cyhoedd a'r rhanddeiliaid.

## Mae swyddogaeth trosolwg a chraffu yn cyfrannu at welliannau mewn perfformiad a gwneud penderfyniadau, ac mae'r Cyngor yn gwerthuso ei effeithiolrwydd yn rheolaidd

23 Cyflwynwyd enghreifftiau, gan gynghorwyr a swyddogion, o bwyllgorau trosolwg a chraffu yn cyfrannu at atebion i broblemau cydnabyddedig, er enghraifft newidiadau i amlder y casgliadau gwastraff gweddilliol, lleoliadau safleoedd sipsiwn a theithwyr, a chodi safonau addysgiadol mewn ysgolion a moderneiddio ysgolion yn wardiau Llangefni a Seiriol. Mae'r Cyngor wedi codi pwysigrwydd 'cau'r ddolen', a thrwy gael cadeiryddion y Pwyllgorau Craffu yn cyflwyno canfyddiadau'r gwaith craffu i'r Weithrediaeth. Mae arfer da cadeiryddion y Pwyllgor Craffu sy'n cadeirio Canfyddiadau'r gwaith craffu i'r Weithrediaeth wedi'i ffurfioli yng nghyfansoddiad y Cyngor.

24 Mae'r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd y swyddogaeth graffu yn rheolaidd ac mae wedi nodi cynnydd da mewn nifer o feysydd, gan gynnwys:

- gweledigaeth newydd ar gyfer craffu, y cytunwyd arni gan y Weithrediaeth, y Cadeiryddion a'r Is-gadeiryddion craffu, yn ogystal â'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth;
- alinio yn well rhaglenni gwaith Gweithredol, Craffu a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth;
- rhagor o bwyslais ar agweddau strategol ar y rhaglen waith graffu;
- blaenoriaethu eitemau gan ddefnyddio meini prawf cadarn sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a gwella effeithiau;

- cyflwyno tri phanel craffu i ganolbwyntio ar safonau ysgolion, gwella gwasanaethau plant a chraffu ariannol; a
- dechrau ymgysylltu mwy â'r cyhoedd, drwy, er enghraifft, cynnwys cyfraniadau gan blant a phobl ifanc (Llais Ni) ac oedolion (Panel y Dinasyddion) yn rhan o'r broses pennu cyllidebau.

25 Mae Rhaglen Gwella Craffu ar waith yn nodi nifer o welliannau a gynlluniwyd i wireddu potensial y swyddogaeth graffu. Mae hyn yn cynnwys camau gweithredu ar 18 o bwyntiau sy'n nodi'r canlyniadau a ddisgwylir, cyfrifoldeb am gyflawni, amserlen, a statws.

# Atodiad 1

## Canlyniadau a nodweddion trefniadau trosolwg a chraffu effeithiol i lywodraeth leol

Arddangosyn 2: canlyniadau a nodweddion trefniadau trosolwg a chraffu effeithiol i lywodraeth leol

| Canlyniadau | Nodweddion |
|---|---|
| **Beth mae craffu da yn anelu at ei gyflawni?** | **Sut olwg fyddai arno? Sut y gallem ei adnabod?** |
| **1. Mae atebolrwydd democrataidd yn llywio gwelliant mewn gwasanaethau cyhoeddus. 'Gwasanaethau Gwell'** | **Yr Amgylchedd**<br>i) Mae gan graffu rôl benodol a gwerthfawr o fewn trefniadau gwella a llywodraethu'r cyngor.<br>ii) Mae'r swyddogaeth trosolwg a chraffu yn cael y cymorth sydd ei angen arni gan swyddogion penodedig sy'n gallu cynnal gwaith ymchwil annibynnol yn effeithiol, ac mae'n rhoi dadansoddiadau, cyngor a hyfforddiant o ansawdd uchel i gynghorwyr<br><br>**Arfer**<br>iii) Mae ymchwiliadau'r swyddogaeth trosolwg a chraffu yn anwleidyddol, yn fethodolegol gadarn ac yn cynnwys amrywiaeth eang o dystiolaeth a safbwyntiau.<br><br>**Effaith**<br>iv) Mae'r swyddogaeth trosolwg a chraffu yn herio gwneuthurwyr penderfyniadau a darparwyr gwasanaethau yn rheolaidd ar sail tystiolaeth.<br>v) Mae craffu yn darparu atebion hyfyw yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn i broblemau cydnabyddedig. |

| Canlyniadau | Nodweddion |
|---|---|
| **Beth mae craffu da yn anelu at ei gyflawni?** | **Sut olwg fyddai arno? Sut y gallem ei adnabod?** |
| **2. Mae'r broses o wneud penderfyniadau democrataidd yn atebol, yn gynhwysol ac yn gadarn.**<br>**'Penderfyniadau gwell'** | **Yr Amgylchedd**<br>i) Mae aelodau craffu yn cael y cyfleoedd hyfforddi a datblygu sydd eu hangen arnynt i ymgymryd â'u rôl yn effeithiol.<br>ii) Mae'r broses yn cael cefnogaeth effeithiol gan Dîm Rheoli Corfforaethol y Cyngor sy'n sicrhau bod yr wybodaeth a roddir i'r swyddogaeth graffu o ansawdd uchel ac y caiff ei darparu mewn modd amserol a chyson.<br><br>**Arfer**<br>iii) Caiff y swyddogaeth graffu ei harwain gan Aelodau ac mae'n 'berchen' ar ei rhaglen waith, drwy ystyried safbwyntiau'r cyhoedd, partneriaid a rheoleiddwyr, ac yn cydbwyso'r broses o flaenoriaethu pryderon y gymuned â materion lle ceir risg strategol a materion o bwysigrwydd strategol.<br>iv) Gall rhanddeiliaid gyfrannu at ddatblygiad a chyflawniad blaenraglenni gwaith craffu.<br>v) Caiff cyfarfodydd a gweithgareddau'r swyddogaeth trosolwg a chraffu eu cynllunio'n dda, eu cadeirio'n effeithiol ac maent yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael iddi.<br><br>**Effaith**<br>vi) Mae Aelodau Anweithredol yn rhoi sicrwydd a chydbwysedd ar sail tystiolaeth i brosesau gwneud penderfyniadau y Weithrediaeth.<br>vii) Mae gwneuthurwyr penderfyniadau yn sicrhau eu bod yn atebol i'r cyhoedd mewn perthynas â'u cyfrifoldebau portffolio o fewn pwyllgorau craffu. |
| **3. Mae'r cyhoedd yn cymryd rhan mewn trafodaethau democrataidd am y ffordd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu yn awr ac yn y dyfodol.** | **Yr Amgylchedd**<br>i) Mae'r Weithrediaeth a'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn cydnabod y swyddogaeth graffu fel un o systemau pwysig y cyngor ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned.<br><br>**Arfer**<br>ii) Nodweddir y swyddogaeth graffu gan drefniadau cyfathrebu effeithiol er mwyn codi ymwybyddiaeth o atebolrwydd democrataidd ac annog cyfranogiad.<br>iii) Mae'r swyddogaeth graffu yn gweithredu mewn modd anwleidyddol ac yn ymdrin yn effeithiol â thensiwn, gwrthdaro a materion gwleidyddol sensitif.<br>iv) Mae'r swyddogaeth graffu yn meithrin ymddiriedaeth a chydberthnasau da ag amrywiaeth eang o randdeiliaid mewnol ac allanol.<br><br>**Effaith**<br>v) Mae'r swyddogaeth trosolwg a chraffu yn galluogi i 'lais' pobl a chymunedau lleol ledled yr ardal gael ei glywed fel rhan o'r prosesau gwneud penderfyniadau a llunio polisïau. |

# Atodiad 2

## Argymhellion o’r adroddiad o astudiaeth wella genedlaethol yr Archwilydd Cyffredinol ‘Craffu Da? Cwestiwn Da?’ (Mai 2014)

Arddangosyn 3: argymhellion o **Craffu Da? Cwestiwn Da?**Astudiaeth Gwella Craffu

| Argymhelliad | | Partneriaid Cyfrifol |
|---|---|---|
| A1 | Egluro rôl aelodau gweithredol ac uwch swyddogion wrth gyfrannu at y broses graffu. | Cynghorau, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| A2 | Sicrhau bod aelodau craffu, ac yn benodol cadeiryddion craffu, yn cael hyfforddiant a chymorth er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar yr holl sgiliau sydd eu hangen i gynnal gwaith craffu effeithiol. | Cynghorau, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| A3 | Datblygu prosesau blaenraglennu craffu ymhellach er mwyn:<br>• ddarparu sail resymegol glir ar gyfer pynciau;<br>• canolbwyntio’n fwy ar ganlyniadau;<br>• sicrhau y defnyddir y dull craffu mwyaf addas ar gyfer y maes pwnc a’r canlyniad dymunol; a<br>• chysoni rhaglenni craffu â threfniadau rheoli perfformiad, hunanwerthuso a gwella’r cyngor. | Cynghorau |
| A4 | Sicrhau bod gwaith craffu yn defnyddio gwaith archwilio, arolygu a rheoleiddio yn effeithiol a bod ei weithgareddau yn ategu gwaith cyrff adolygu allanol. | Cynghorau, staff Swyddfa Archwilio Cymru, AGGCC, Estyn |
| A5 | Sicrhau bod cyrff adolygu allanol yn ystyried rhaglenni gwaith craffu ac allbynnau gweithgareddau craffu, lle y bo’n briodol, wrth gynllunio a chyflawni eu gwaith. | Staff Swyddfa Archwilio Cymru, AGGCC, Estyn |

| Argymhelliad | | Partneriaid Cyfrifol |
|---|---|---|
| A6 | Sicrhau y caiff effaith craffu ei gwerthuso'n briodol ac y gweithredir arni er mwyn gwella effeithiolrwydd y swyddogaeth; gan gynnwys gwneud gwaith dilynol ar gamau gweithredu arfaethedig ac archwilio canlyniadau. | Cynghorau, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| A7 | Cynnal hunanwerthusiadau rheolaidd o drefniadau craffu gan ddefnyddio 'canlyniadau a nodweddion trefniadau trosolwg a chraffu effeithiol i lywodraeth leol' a ddatblygwyd gan Rwydwaith Swyddogion Craffu Cymru. | Cynghorau |
| A8 | Rhoi cynlluniau gweithredu ar gyfer gwella craffu ar waith yn seiliedig ar astudiaeth wella Swyddfa Archwilio Cymru. | Cynghorau |
| A9 | Mabwysiadu 10 Egwyddor Cyfranogaeth Cymru ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd wrth wella'r ffordd y mae'r swyddogaeth graffu yn ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid. | Cynghorau |

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adrodd i:** | Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu |
| **Dyddiad:** | 4 Rhagfyr 2018 |
| **Pwnc:** | Diweddariad Archwilio Mewnol |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones, Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151<br>01248 752601<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor, Pennaeth Archwilio a Risg<br>01248 752611<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk |
| **Natur a Rhesymau dros Adrodd:**<br>Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth am waith a wnaed gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor. Mae'n caniatáu i'r Pwyllgor fonitro cynnydd a pherfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ac mae'n rhoi crynodebau o adroddiadau Archwilio Mewnol fel y gall y Pwyllgor gael sicrwydd ynghylch gwasanaethau a meysydd corfforaethol eraill y Cyngor. | |

## 1. Rhagarweiniad

1.1. Mae'r adroddiad yn rhoi diweddariad ar y sefyllfa fel yr oedd ar 9 Tachwedd 2018 ynghylch:

- Adroddiadau Archwilio Mewnol a gyhoeddwyd ers 31 Awst 2018
- Gwaith dilyn i fyny a wnaed ar adroddiadau archwilio blaenorol
- Gweithredu'r camau rheoli
- Y cynnydd a wnaed o ran cyflawni'r Cynllun Archwilio Mewnol Blynyddol 2018/19
- Rheoli Risg
- Menter Dwyll Genedlaethol

## 2. Argymhelliad

2.1. Bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn nodi'r cynnydd diweddaraf a wnaed gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol o ran ei ddarpariaeth gwasanaeth, darparu sicrwydd, yr adolygiadau a gwblhawyd a pherfformiad ac effeithiolrwydd y gwasanaeth o ran gyrru gwelliant. Hefyd gofynnir i'r Pwyllgor benderfynu a oes angen sicrwydd pellach arno ynghylch adroddiadau archwilio.

# Diweddariad Archwilio Mewnol

## Rhagfyr 2018

**Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA**
**Pennaeth Archwilio a Risg**

# Cynnwys

**Cynnwys** ........ **1**
**Adroddiadau Archwilio Mewnol a gyhoeddwyd yn ddiweddar** ........ **2**
Trefniadau Casglu Incwm Ysgolion ........ 2
Twyll Tocynnau Teithio Rhatach ........ 3
**Dilyn i Fyny Adroddiadau Archwilio Mewnol Blaenorol** ........ **4**
Amrywiol Ddyledwyr – Dilyn i fyny am y tro cyntaf ........ 4
Fframwaith Caffael Corfforaethol – Dilyn i fyny am yr ail dro ........ 5
Paratoadau'r Cyngor ar gyfer GDPR – Dilyn i fyny am y tro cyntaf ........ 5
Gwaith Dilyn i Fyny sydd wedi'i Drefnu ac sydd ar y Gweill ........ 7
**Gweithredu Camau Rheoli** ........ **8**
**Cynnydd o ran cyflawni'r Cynllun Gweithredu Archwilio Mewnol 2018/19** ........ **9**
**Rheoli Risg** ........ **9**
**Menter Dwyll Genedlaethol** ........ **10**
Atodiad A – Cynllun Gweithredol Archwilio Mewnol 2018/19 ........ 11

## Adroddiadau Archwilio Mewnol a gyhoeddwyd yn ddiweddar

1. Mae'r rhan hon o’r adroddiad yn rhoi trosolwg o adroddiadau Archwilio Mewnol a gwblhawyd ers y cyfarfod diwethaf, gan gynnwys y Raddfa Sicrwydd gyffredinol a nifer y Materion / Risgiau a godir yng nghynllun gweithredu'r adroddiad.

2. Rydym wedi cwblhau **dau** adroddiad yn y cyfnod hwn a cheir crynodeb ohonynt isod:

| Teitl | Lefel Sicrwydd | Catastroffig | Uchel | Cymedrol | Isel | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Trefniadau Casglu Incwm Ysgolion | **Cyfyngedig** | 0 | 2 | 1 | 0 | 3 |
| Twyll Tocynnau Teithio Rhatach | **Rhesymol** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

### Trefniadau Casglu Incwm Ysgolion

3. *Yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu o safbwynt adroddiadau ‘Sicrwydd Cyfyngedig’, rwyf wedi darparu copi o’r adroddiad llawn i aelodau ar wahân.*

4. Cafodd yr archwiliad hwn ei gynnwys yn y cynllun archwilio yn dilyn cais gan y Pennaeth Dysgu blaenorol. Codwyd amrywiol bryderon ynglŷn â phrosesau casglu incwm o fewn ysgolion a chodwyd pryderon pellach yn ystod yr ymgynghoriad a gynhaliwyd ar y system TG newydd ar gyfer casglu incwm o fewn ysgolion. Ymwelwyd â thair ysgol gynradd fel rhan o’r archwiliad.

5. Nodwyd bod:

    - polisïau a gweithdrefnau mewn perthynas ag incwm wedi dyddio
    - anghysondebau o ran bod yn atebol am incwm
    - diffyg monitro corfforaethol
    - gwaith monitro dyledion yn amrywio rhwng ysgolion
    - trefn lywodraethu cronfeydd ysgolion yn wan ac
    - mae systemau rheoli mynediad amhriodol.

6. Roedd y rhan fwyaf o’r gwendidau a ganfuwyd yn y prosesau casglu incwm a fabwysiadwyd gan ysgolion yn deillio o ddiffyg gwybodaeth a hyfforddiant, h.y. nid yw’r Gwasanaeth Dysgu wedi cyflwyno polisïau cyfredol i ysgolion, wedi’u cefnogi gan weithdrefnau a hyfforddiant. Hefyd, mae diffyg monitro cydymffurfiaeth gorfforaethol gan y Gwasanaeth Dysgu i nodi problemau, gan adael y Cyngor yn agored i risgiau.

7. Cadarnhaodd Swyddog Cefnogi Busnes Ysgolion, sydd newydd ei phenodi, fod y Gwasanaeth wedi trefnu hyfforddiant pellach ar gyfer y system School Comms yn Hydref 2018. Dywedodd hefyd fod gan rai ysgolion wahanol becynnau ar gyfer y system

School Comms ac felly nad ydynt yn gallu gwneud yr un tasgau. Mae hwn yn rhywbeth y bydd y Gwasanaeth Dysgu yn ei adolygu.

8. Fodd bynnag, yn seiliedig ar wendidau'r system bresennol, dim ond cynnig **'Sicrwydd Cyfyngedig'** yr oeddem yn gallu ei gynnig o ran rheoli risg, llywodraethu a threfniadau rheoli mewnol.

## Twyll Tocynnau Teithio Rhatach

9. Mae adroddiadau am dwyll yn erbyn Cyngor Gwynedd wedi ymddangos yn ddiweddar yn y wasg ar ôl i berchnogion dau gwmni bysiau eu cael yn euog am droseddau yn cynnwys cynllwynio i gyflawni twyll trwy wybodaeth ffug. Roedd y cwmni wedi defnyddio tocynnau teithio rhatach oedd wedi'u colli neu eu dwyn, sy'n caniatáu i rai dros 60 oed ac eraill ag anableddau penodol deithio am ddim, i hawlio siwrneiau bws nad oedd erioed wedi digwydd. Roedd y cwmni wedi defnyddio un cerdyn 23,000 o weithiau er bod perchennog y cerdyn wedi cael cerdyn newydd yn ei le, a defnyddiwyd tocyn bws un pensiynwr filoedd o weithiau ar ôl iddo farw. Cyflwynodd y cwmni hawliadau i Gyngor Gwynedd, a thalodd y Cyngor amdanynt gan hawlio'r arian yn ôl gan Lywodraeth Cymru o dan Gynllun Tocynnau Teithio Rhatach Cymru Gyfan.

10. Gwnaed ymholiadau gyda Chyngor Gwynedd a Gwasanaeth Trafnidiaeth y Cyngor i sicrhau nad yw'r Cyngor yn agored i'r twyll hwn. Roedd un o'r cwmnïau wedi gweithredu dau gontract gyda'r Cyngor yn ad-dalu tocynnau rhatach, ond nid oeddent yn llwyddiannus pan wnaeth y Cyngor ail-dendro'r contractau yn 2015. Nid oedd y llall wedi derbyn unrhyw daliadau ers Mehefin 2014.

11. Mae Cyngor Sir y Fflint, ar ran holl Gynghorau Gogledd Cymru, yn darparu adroddiadau cryno yn uniongyrchol o system Wayfarer i gefnogi hawliadau ad-dalu ar gyfer tocynnau rhatach, rhag i gontractwyr allu ymyrryd â nhw.  Mae Gwasanaeth Trafnidiaeth y Cyngor yn gwirio pob cais am docynnau rhatach a gyflwynwyd gan y gweithredwr bysiau yn erbyn yr adroddiadau gan leihau'r risg o golledion yn sgil hawliadau twyllodrus.

12. O fis Gorffennaf 2017, cyflwynodd Llywodraeth Cymru adroddiadau system manwl bob mis i Gynghorau allu monitro gweithgaredd cardiau clyfar. Mae'r Cyngor yn adolygu'r adroddiadau i ganfod unrhyw achos o ddyblygu / defnydd uchel o gerdyn ac unrhyw weithgaredd anarferol er mwyn iddynt allu gwneud ymholiadau gyda'r gweithredwr bysiau. Mae adroddiadau'n tynnu sylw at orddefnydd o'r system, ac o fewn lefel goddefiant o 2%, mae'r Gwasanaeth Trafnidiaeth yn ymchwilio. Mae'r system adrodd newydd yn golygu y gall y Cyngor ganfod achosion o anghysondeb ac ymchwilio iddynt, ac felly mai llai o risg o golledion yn sgil hawliadau rhy uchel a thwyllodrus ar gyfer ad-dalu tocynnau rhatach.

13. Mae'r Cyngor yn cymryd rhan yn y cynllun Dywedwch Wrthym Unwaith ac mae'n canslo cardiau pan fydd rhywun yn marw. Mae'r Cyngor yn cadw cardiau wedi'u difrodi ac os dywedir wrth y Cyngor bod cerdyn ar goll caiff ei ddadysgogi. Mae hyn yn sicrhau bod y risg o golledion ariannol yn sgil defnydd twyllodrus o gardiau'n lleihau.

14. Yn seiliedig ar y casgliadau uchod, mae rheolau rhesymol yn eu lle i sicrhau bod risg y Cyngor o ad-dalu tocynnau rhatach yn cael ei lleihau.

## Dilyn i Fyny Adroddiadau Archwilio Mewnol Blaenorol

15. Ar hyn o bryd, rydym yn dilyn i fyny adroddiadau gyda graddfa sicrwydd o 'Cyfyngedig' neu is. Rydym wedi cwblhau **tri** adolygiad dilyn i fyny yn y cyfnod hwn, gyda'r canlyniadau canlynol:

| Teitl yr Archwiliad | Rheswm dros yr Adolygiad | Dyddiad dilyn i fyny | Lefel Sicrwydd | Catastroffig | Uchel | Canolig | Isel | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amrywiol Ddyledwyr** | Dilyn i fyny am y tro cyntaf | Tach-18 | **Cyfyngedig** | 0 | 4 | 7 | 2 | 13 |
| **Fframwaith Caffael Corfforaethol** | Dilyn i fyny am yr ail dro | Tach-18 | **Rhesymol** | 0 | 2 | 4 | 0 | 6 |
| **Paratoadau'r Cyngor ar gyfer GDPR** | Dilyn i fyny am y tro cyntaf | Hyd-18 | **Rhesymol** | 0 | 2 | 0 | 0 | 2 |

### Amrywiol Ddyledwyr – Dilyn i fyny am y tro cyntaf

16. *Yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu o safbwynt adroddiadau 'Sicrwydd Cyfyngedig', rwyf wedi darparu copi o'r adroddiad llawn i aelodau ar wahân.*

17. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r Gwasanaeth Adnoddau wedi dechrau buddsoddiad ar raddfa fawr mewn systemau, yn cynnwys Dyledwyr, Casglu Arian Parod a Chyfrifyddu, Treth y Cyngor a Budd-daliadau Tai. Yn y gorffennol mae'r Tîm Dyledwyr wedi dioddef oherwydd diffyg buddsoddiad, o ran staffio ac o ran systemau. Mae cyflwyno'r system Civica Debtors wedi gwella'r sefyllfa, ond ar adeg ein harchwiliad diwethaf a chyn yr ailstrwythuro, nid oedd gan y Tîm y capasiti i ddatblygu'r system a moderneiddio prosesau.

18. Mae hwn wedi bod yn amser heriol; gan gynnal y llwyth gwaith beunyddiol, mae staff wedi gweithredu heriau mawr i systemau ond mae nifer o broblemau gweithredu'r system TG wedi codi. Mae tystiolaeth fod y tîm wedi gwneud cryn waith i fynd i'r afael â'r materion / risgiau a godwyd yn ystod ein hadolygiad gwreiddiol, ond mae ein hadolygiad dilynol yn dangos, mewn sawl achos, nad yw wedi bod yn ddigonol i fynd i'r afael yn llawn â'r risg ac felly'n mae'n parhau'n **'Sicrwydd Cyfyngedig'**.

19. O'r 19 o faterion / risgiau a godwyd yn ystod yr adolygiad archwilio cyntaf, mae'r Rheolwr Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau wedi goddef un risg 'Isel' o ran ad-daliadau a risg twyll, mae pum wedi cael sylw, 11 yn y broses o gael sylw ac mae gwaith heb ei ddechrau ar ddau. O ran y gwaith sydd wedi'i ddechrau a'i fod wedi lleihau'r tebygolrwydd o risg yn codi, rydym wedi adlewyrchu hyn yn y raddfa risg.

20. Byddwn yn edrych eto ar hyn ym mis Gorffennaf 2019 i fonitro cynnydd y risgiau.

## Fframwaith Caffael Corfforaethol – Dilyn i fyny am yr ail dro

21. Cynhaliwyd archwiliad o'r fframwaith caffael corfforaethol a chyhoeddwyd adroddiad ym Medi 2017. Arweiniodd yr adolygiad at raddfa 'Sicrwydd Cyfyngedig'.

22. Cynhaliwyd adolygiad dilynol a chyhoeddwyd ein hadroddiad yn Ionawr 2018. Daethpwyd i'r casgliad fod y Cyngor wedi dangos 'Cynnydd Rhesymol' o ran mynd i'r afael â'r Materion / Risgiau a godwyd, dylai lefel sicrwydd yr adroddiad barhau i fod yn 'Sicrwydd Cyfyngedig' oherwydd lefel flaenoriaeth gweddill y materion a godwyd oedd heb gyrraedd y dyddiad gweithredu a dargedwyd.

23. Mae'r adolygiad yn dilyn i fyny am yr ail dro'n dod i'r casgliad bod chwech o'r 20 o Faterion / Risgiau a godwyd yn ystod yr adolygiad gwreiddiol ym Medi 2017 yn dal heb gael sylw. Mae'r Rheolwr Caffael Corfforaethol wedi ymestyn y dyddiadau terfyn ar gyfer mynd i'r afael â'r risgiau sy'n weddill, gyda'r diweddaraf yn Awst, 2019.

24. Codwyd un Mater/ Risg coch yn yr adroddiad gwreiddiol, oedd yn ymwneud â diffyg sicrwydd y Cyngor fod ei holl weithgaredd caffael yn cydymffurfio â gweithdrefnau a rheoliadau a'r posibilrwydd fod y Cyngor wedi mynd i gostau lle nad oedd unrhyw ymarfer caffael cystadleuol ffurfiol wedi digwydd. Roedd risg nad oedd contractau addas i'r pwrpas yn eu lle ac nad oedd gwasanaethau wedi ystyried materion fel diogelu a diogelwch, a gwerth am arian. Cytunodd gwasanaethau i adolygu gwasanaethau presennol a ddarparwyd gan ddarparwyr allanol i sicrhau eu bod wedi cydymffurfio â rheoliadau caffael a bod contractau oedd yn addas i'r pwrpas yn eu lle. Nid oedd bob gwasanaeth wedi cwblhau'r adolygiad ar yr adeg y gwnaed yr archwiliad ond roeddent yn gwneud cynnydd da tuag at gael y sicrwydd hwn.

25. Hefyd, cynhaliwyd ymarferiad fel rhan o'n hadolygiad i nodi'r holl wariant gyda chyflenwyr unigol dros £150k yn y cyfnod 2017/18 i gadarnhau bod contract yn ei le ar gyfer y nwyddau neu'r gwasanaeth a ddarparwyd. Ar gyfer y lefel hon o wariant, gwelwyd bod gan y Cyngor gontractau yn eu lle'n gyson a bod gwasanaethau'n defnyddio fframweithiau caffael cenedlaethol a rhanbarthol i sicrhau arbedion.

26. Yn sgil y gwaith a wnaed gan wasanaethau a chanlyniadau ein harchwiliad, llwyddwyd i leihau'r tebygolrwydd bod contractau'n methu â chydymffurfio i 'Annhebygol', gan leihau'r raddfa risg i 'Uchel' (Ambr).

27. Felly daethom i'r casgliad fod y Cyngor wedi dangos 'cynnydd da' i fynd i'r afael â'r Materion / Risgiau a godwyd ac felly rydym bellach yn gallu cynnig **'Sicrwydd Rhesymol'** fod y Cyngor yn rheoli ei waith caffael yn effeithiol.

## Paratoadau'r Cyngor ar gyfer GDPR – Dilyn i fyny am y tro cyntaf

28. Rydym wedi cynnal dau archwiliad yn ystod y llynedd gan olrhain paratoadau'r Cyngor ar gyfer GDPR. Y cyntaf oedd adolygiad dros dro ym mis Tachwedd 2017 i asesu cynnydd ar y dyddiad hwnnw, yna dilynwyd yr adolygiad hwnnw gan archwiliad llawn ym Mai 2018 i benderfynu a oedd y Cyngor mewn sefyllfa o gydymffurfio â GDPR erbyn y dyddiad terfyn, 25 Mai 2018.

29. Tra bod y diweddariad dros dro wedi cynnig **‘Sicrwydd Rhesymol’** fod y Cyngor ar y trywydd cywir i gydymffurfio â GDPR, roedd ein hadolygiad dilynol yn dangos nad oedd nifer o wasanaethau wedi gweithredu’r Cynllun Gweithredu GDPR yn unol â’r dyddiadau targed y cytunwyd arnynt. Yn sgil y ffaith bod deddfwriaeth GDPR yn cael ei gweithredu’n fuan a’r canlyniadau posibl i’r Cyngor pe na fyddai’n cydymffurfio, dim ond **‘Sicrwydd Cyfyngedig’** yr oeddem yn gallu ei gynnig ar y pryd, a chodwyd wyth o faterion / risgiau i sylw rheolwyr.

30. Mae’r Cyngor wedi gwneud llawer o waith mewn cyfnod cymharol fyr i fynd i’r afael â’r materion / risgiau yn ystod ein hadolygiad diwethaf. Mae ein hadolygiad dilynol yn cadarnhau bod y Cyngor bellach mewn gwella sefyllfa i ddangos i Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth ei fod wedi cymryd camau rhesymol tuag at gydymffurfio â GDPR. Bellach mae fframwaith mwy cadarn yn ei le o fewn y Cyngor i hwyluso cydymffurfiaeth â GDPR yn ystod y ddwy flynedd nesaf.

31. O’r wyth risg / mater a godwyd yn ystod yr adolygiad llawn ym Mai 2018, mae’r Cyngor wedi mynd i’r afael â chwech ac mae dau’n dal i gael sylw.

32. Nid yw’r Cyngor wedi penodi Swyddog Diogelu Data Ysgolion hyd yma, i helpu a chynghori ysgolion ar Ddiogelu Data a chydymffurfio â GDPR; ond, ar adeg ein hadolygiad roedd y broses recriwtio ar gyfer y swydd hon ar y gweill.

33. Hefyd, mae angen gwaith pellach i sicrhau bod yr holl staff wedi’u hyfforddi’n ddigonol o safbwynt GDPR. Tra bod y Cyngor wedi cyflwyno modiwl e-ddysgu GDPR, sy’n orfodol i bob aelod o staff, mae ystadegau cwblhau diweddar yn dangos bod mwy na 50% o staff heb gwblhau’r hyfforddiant. Felly mae risg o hyd nad yw staff yn gwbl ymwybodol o’u cyfrifoldebau unigol a chyfrifoldebau cyffredinol y Cyngor o safbwynt Diogelu Data.

34. Serch hynny, mae’r Cyngor wedi gwneud cynnydd da i fynd i’r afael â’r materion / risgiau a nodwyd yn ystod ein hadolygiad gwreiddiol. Rydym hefyd yn gallu cael sicrwydd pellach o ba mor dda y mae’r Cyngor yn rheoli ei risgiau llywodraethu gwybodaeth, o adroddiad blynyddol yr Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth a gyflwynwyd i Bwyllgor Archwilio a Llywodraethu ym Medi 2018. Daeth yr adroddiad i’r casgliad fod trefniadau’r Cyngor ar gyfer llywodraethu gwybodaeth a chydymffurfio â diogelu data yn rhesymol effeithiol; mae wedi llwyddo i weithredu’r ddeddfwriaeth diogelu data newydd, gan weithredu mewn ffordd sy’n cydymffurfio; ac mae prosesau’n bodoli o fewn y Cyngor i ddangos ei fod yn cydymffurfio â Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth.

35. O ystyried canlyniadau ein hadolygiad dilynol, yn ogystal â’r sicrwydd a ddarparwyd gan adroddiad blynyddol yr Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth, rydym bellach yn gallu ail-sgorio ein graddfa sicrwydd a chynnig **lefel sicrwydd rhesymol** o safbwynt cydymffurfio â GDPR o fewn y Cyngor.


## Gwaith Dilyn i Fyny sydd wedi'i Drefnu ac sydd ar y Gweill

36. Mae gennym **dri** adroddiad gyda graddfa 'Sicrwydd Cyfyngedig' fydd yn cael adolygiad dilynol cyn diwedd y flwyddyn ariannol hon. Mae pob un o'r **tri** adolygiad dilyn i fyny wrthi'n cael eu cynnal:

| Teitl yr Archwiliad | Rheswm dros yr Adolygiad | Dyddiad dilyn i fyny | Lefel Sicrwydd | Catastroffig | Uchel | Canolig | Isel | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gorchmynion Llys Gofal Plant o dan yr Amlinelliad Cyfraith Cyhoeddus** | Dilyn i fyny am yr ail dro | Gorff-18 | Cyfyngedig | 1 | 3 | 3 | 1 | 8 |
| **Cydymffurfio â Safon Diogelwch Data y Diwydiant Cardiau Talu** | Dilyn i fyny am yr ail dro | Hyd-18 | Cyfyngedig | 0 | 6 | 4 | 1 | 11 |
| **Rheoli Systemau – Mynediad Rhesymegol a Gwahanu Dyletswyddau** | Dilyn i fyny am y trydydd tro | Rhag-18 | Cyfyngedig | 0 | 3 | 2 | 0 | 5 |

## Gweithredu Camau Rheoli

37. Mae’r graff isod yn tynnu sylw at berfformiad rheolwyr i fynd i’r afael â Materion / Risgiau a godwyd yn ein harchwiliadau:




| | Ch3 2016/17 | Ch4 2016/17 | Ch1 2017/18 | Ch2 2017/18 | Ch3 2017/18 | Ch4 2017/18 | Ch1 2018/19 | Ch2 2018/19 | Ch2 Hyd at 09/11/18 2018/19 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Uchel Coch Ambr | 81% | 81% | 80% | 90% | 97% | 91% | 90% | 93% | 93% |
| Canolig Melyn | 82% | 88% | 87% | 90% | 94% | 90% | 92% | 94% | 94% |
| Isel Gwyrdd | 66% | 80% | 80% | 83% | 90% | 90% | 91% | 92% | 93% |

38. Bu i’r Cyngor wella ei berfformiad yn raddol yn ystod 2017/18 ac mae wedi parhau i gynnal perfformiad da yn y ddau chwarter cyntaf o 2018/19.

39. Paratoir adroddiad manylach o’r holl argymhellion sy’n weddill a’r Materion / Risgiau ddwywaith y flwyddyn. Bydd y nesaf yn barod yn Chwefror 2019.

40. Fodd bynnag, mae ymarferiad diweddar i edrych ar y data hanesyddol sydd wedi’i gynnwys yn y system olrhain camau gweithredu wedi tynnu sylw at orgyflunio gweinyddol ac eitemau anghyson gyda’n dull seiliedig ar risg tuag at archwilio. Yn fuan bydd fersiwn newydd wedi’i huwchraddio o’r system olrhain camau gweithredu ar gael, sy’n fwy ymarferol ac yn lleihau’r baich gweinyddol. Felly, byddwn yn cynnal ymarferiad y flwyddyn nesaf i lanhau’r data hanesyddol ac adolygu’r broses o gyflunio’r system.

## Cynnydd o ran cyflawni'r Cynllun Gweithredu Archwilio Mewnol 2018/19

41. Mae'r Cynllun presennol ynghlwm yn Atodiad A. Ers i'r ddau Uwch Archwilydd newydd gael eu penodi, mae gwaith wedi gwneud cynnydd da. Fodd bynnag, wrth fynd ymlaen, ynghyd â hyd y swyddi hyn, ymchwiliadau hir, gwaith dilynol sylweddol ac absenoldeb mamolaeth y trydydd Uwch Archwilydd, a ddechreuodd yn annisgwyl yn Hydref 2018, bydd yn anodd cyflawni ein targed i roi sylw i 80% o'r risgiau gweddilliol coch ac ambr yn y gofrestr risg gorfforaethol.

42. Er mai dim ond **29%** o risgiau gweddilliol coch ac ambr sydd wedi cael sylw yn y gofrestr risg gorfforaethol, mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd mewn **saith** maes:

- Seiberddiogelwch (risg - coch)
- Sipsiwn a Theithwyr (Gofynion Deddf Tai (Cymru) 2014)
- Gwrthderfysgaeth a'r Ddyletswydd Atal
- Recriwtio a Chadw
- Parhad Busnes (dwy risg - coch)
- Taliadau Uniongyrchol
- Gwasanaethau Hamdden – Trefniadau Llywodraethu

43. Rydym hefyd yn ymwneud â dau ymchwiliad parhaus, sydd bron â chael eu cwblhau.

## Rheoli Risg

44. Mae'r broses o newid y cofrestri risg i'r feddalwedd Rheoli Risg newydd (4risk) yn mynd yn dda ac mae gwaith yn parhau gyda gwasanaethau i sicrhau ansawdd eu risgiau. Bydd gwaith pellach i gynnwys a gwella agwedd mapio sicrwydd y system fel rhan o'r ail gam gweithredu.

45. Rydym wedi cael Archwiliad Iechyd Rheoli Risg annibynnol gan ein hyswirwyr, Zurich Municipal. Mae'r canlyniad yn debyg iawn i'r hyn yr oeddem yn ei ddisgwyl, gydag ychydig o gyfleoedd i wella. Byddwn yn rhannu adroddiad yr Ymgynghorydd Risg Corfforaethol gyda'r Pwyllgor unwaith y bydd wedi'i gwblhau, ynghyd â'n cynllun gweithredu gwelliannau.

## Menter Dwyll Genedlaethol

46. I gefnogi cyrff cyhoeddus Cymru yn eu brwydr yn erbyn twyll, mae’r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal Menter Dwyll Genedlaethol yng Nghymru bob dwy flynedd o dan ei bwerau (cydweddu data statudol sydd wedi’i gynnwys yn Rhan 3A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

47. Mae’r Fenter Dwyll Genedlaethol yn cydweddu data ar draws sefydliadau a systemau i helpu cyrff cyhoeddus ganfod achosion posibl o hawliadau a thrafodion twyllodrus neu anghywir. Mae wedi’i gynnal bob dwy flynedd ers 1996, hyd yma mae wedi cael ei ddefnyddio i ganfod cyfanswm o £1.69 biliwn o ordaliadau ac achosion o dwyll drwy’r DU.

48. Yn ystod y chwarter olaf hwn, rydym wedi bod yn gofyn, coladu, adolygu ac uwchlwytho’r holl ddata angenrheidiol ar gyfer ymarferiad Menter Dwyll Genedlaethol 2018/19, gan ddilyn manylebau data llym. Roedd hyn golygu gweithio’n agos â chydweithwyr yn TG ac ar draws bob gwasanaeth i echdynnu’r data ar gyfer 12 set ddata, a chymerodd wyth diwrnod i gyd ar draws y tîm.

49. Mae Swyddfa Archwilio Cymru newydd ryddhau canlyniadau ymarferiad blaenorol Menter Dwyll Genedlaethol (2016-18), y fwyaf llwyddiannus hyd yma, sydd eisoes wedi arwain at ganfod £5.4 miliwn o ordaliadau ac achosion o dwyll yng Nghymru, a £301 miliwn ar draws y DU. Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru’n cynnwys nifer o astudiaethau achos sy’n pwysleisio’r gwaith rhagorol y mae’r sefydliadau sy’n rhan o’r gwaith yn ei wneud i gael gwared ar dwyll mewn gwasanaethau cyhoeddus ar mae ar gael ar http://www.audit.wales/cy/cyhoeddi/y-fenter-twyll-genedlaethol-yng-nghymru

## Atodiad A – Cynllun Gweithredol Archwilio Mewnol 2018/19[1]

| Gwasanaeth / Adain | Teitl | Rheswm dros ei gynnwys | Graddfa Risg Gorfforaethol (Gweddilliol) | Cynllun Diwygiedig 2018/19 | Nifer dyddiau gwirioneddol ar 31/08/18 | Nodiadau / Lefel Sicrwydd | Targed / Dyddiad Gwirioneddol Adrodd i'r Pwyllgor |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **CORFFORAETH GYFAN** | | | | | | | |
| Corfforaethol | Parhad Busnes | Cofrestr Risg Gorfforaethol | C2 - YM9<br>C1 - YM38 | 10 | 1.75 | | Ebrill 2019 |
| Corfforaethol | Diwygio Lles | Cofrestr Risg Gorfforaethol | C2<br>YM10 | 10 | | | Ebrill 2019 |
| Corfforaethol | Diogelu Corfforaethol | Cofrestr Risg Gorfforaethol | D2[2]<br>YM11 | 10 | 7 | **Sicrwydd Rhesymol** | **Rhagfyr 2018** |
| Corfforaethol | CONTEST (Atal Terfysgaeth ac Atal Radicaleiddio) | Cofrestr Risg Gorfforaethol | E1<br>YM27 | 10 | 2.5 | | Ebrill 2019 |
| Corfforaethol | Safonau Diogelwch Data y Diwydiant Cardiau Talu (PCIDSS) | Cofrestr Risg Gorfforaethol | D1<br>YM34 | 10 | 0.75 | | Chwefror 2019 |
| Corfforaethol | Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) | Cofrestr Risg Gorfforaethol | C2<br>YM31 | 0 | 8 | **Sicrwydd Rhesymol** | **Rhagfyr 2018** |
| Corfforaethol | Caffael Corfforaethol | Cofrestr Risg Gorfforaethol | D2 - YM20<br>D2 - YM22 | 18 | 18 | **Sicrwydd Rhesymol** | **Rhagfyr 2018** |
| Corfforaethol | Rheoli Risg | Proses newydd wedi'i gweithredu ym mis Hydref 2017. Meddalwedd 4Risk wedi'i gweithredu Medi 2018. Bydd yn ddibynnol ar Wiriad Iechyd annibynnol gan ein hyswirwyr. | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | Adroddiad drafft wedi'i dderbyn Tachwedd 2018 | Chwefror 2019 |



[1] Cofrestr Risg Gorfforaethol wedi'i chymeradwyo gan yr UDA 10/09/18
[2] Risg Gweddilliol wedi lleihau o C1 (Coch) i D2 (Ambr)

| Gwasanaeth / Adain | Teitl | Rheswm dros ei gynnwys | Graddfa Risg Gorfforaethol (Gweddilliol) | Cynllun Diwygiedig 2018/19 | Nifer dyddiau gwirioneddol ar 31/08/18 | Nodiadau / Lefel Sicrwydd | Targed / Dyddiad Gwirioneddol Adrodd i'r Pwyllgor |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Corfforaethol | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Deddfwriaeth proffil uchel sy'n cael effaith sylweddol ar y ffordd mae'r Cyngor yn gweithio. Bydd yn destun adolygiad penodol gan Swyddfa Archwilio Cymru | Amherthnasol | 3 | | | |
| Corfforaethol | Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant – gofynion Rhan 9 | Deddfwriaeth proffil uchel sy'n cael effaith sylweddol ar y ffordd mae'r Cyngor yn gweithio. Estyniad gan LlC i weithredu cyllidebau wedi'u cyfuno | Amherthnasol | 2 | | | |
| Corfforaethol | Rheoli Risg Twyll | Gofyniad gan PSIAS | Amherthnasol | 5 | | | |
| **ADNODDAU** | | | | | | | |
| Adnoddau | Adennill a Dileu dyledion | Systemau Ariannol Allweddol – pryderon A151 | Amherthnasol | 15 | | | Ebrill 2019 |
| Adnoddau | Incwm – Dilyn i Fyny Amrywiol Ddyledwyr | System Ariannol Allweddol – sicrwydd archwilio allanol | Amherthnasol | 15 | 15 | **Sicrwydd Cyfyngedig** | **Rhagfyr 2018** |
| Adnoddau | Cyflogres | System Ariannol Allweddol – sicrwydd archwilio allanol | Amherthnasol | 15 | | | |
| **TRAWSNEWID** | | | | | | | |
| TGCh | Archwiliad TG - Seiberddiogelwch | Cofrestr Risg Gorfforaethol | C1 YM28 | 15 | 7.25 | | Chwefror 2019 |
| AD | Recriwtio a Chadw | Cofrestr Risg Gorfforaethol | C2 YM5 | 15 | | | Ebrill 2019 |
| **RHEOLEIDDIO A DATBLYGU ECONOMAIDD** | | | | | | | |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Rhaglen Ynys Ynni (yn cynnwys cynlluniau mawr megis Wylfa Newydd) | Cofrestr Risg Gorfforaethol | C2 - YM13<br>C2 - YM16<br>D2 - YM17 | 10 | | | |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Gwasanaethau Hamdden – buddsoddiad ariannol | Cofrestr Risg Gorfforaethol | B3 YM32 | 10 | | | Ebrill 2019 |

| Gwasanaeth / Adain | Teitl | Rheswm dros ei gynnwys | Graddfa Risg Gorfforaethol (Gweddilliol) | Cynllun Diwygiedig 2018/19 | Nifer dyddiau gwirioneddol ar 31/08/18 | Nodiadau / Lefel Sicrwydd | Targed / Dyddiad Gwirioneddol Adrodd i'r Pwyllgor |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Gwasanaethau Hamdden – Llywodraethiant a Rheolaeth | Cais y Pennaeth Gwasanaeth – newidiadau strwythurol mawr wedi'i gario ymlaen o 2017 / 1 | Amherthnasol | 15 | | Aros i'r ailstrwythur o gael ei gwblhau | Ebrill 2019 |
| **PRIFFYRDD, GWASTRAFF A GWASANAETHAU EIDDO** | | | | | | | |
| Priffyrdd | Gwasanaethau Parcio Ceir – Gorfodaeth | Arbrawf newydd mewn lle o 2017/18 gyda sefydliad allanol ar gyfer gorfodi rheolau parcio | Amherthnasol | ~~15~~ 0 | | Dilewyd – blaenoriaeth isel | |
| Priffyrdd | Trefniadau Monitro Contract Priffyrdd | Cais y Pennaeth Gwasanaeth | Amherthnasol | ~~15~~ 10 | 10 | **Sicrwydd Sylweddol** | **Medi 2018** |
| **TAI** | | | | | | | |
| Tai | Sipsiwn a Theithwyr (Gofynion Deddf Tai 2014) | Cofrestr Risg Gorfforaethol | C2 YM29 | 10 | 0.25 | | Ebrill 2019 |
| **GWASANAETHAU OEDOLION** | | | | | | | |
| Oedolion | Trefniadau Diogelu rhag Collid Rhyddid | Cofrestr Risg Gorfforaethol | C2 YM25 | ~~15~~ 9 | 9 | **Sicrwydd Rhesymol** | **Gorffennaf 2018** |
| Oedolion | Taliadau Uniongyrchol | Cais y Pennaeth Gwasanaeth (cariwyd ymlaen o 2017/18) | Amherthnaso l | 10 | 0.5 | | Medi 2018 |
| **GWASANAETHAU PLANT** | | | | | | | |
| Plant | Bwrdd Integredig Cyflenwi Gwasanaeth | Cofrestr Risg Gorfforaethol | C2 YM36 | 10 | | | Ebrill 2019 |
| **DYSGU** | | | | | | | |
| Dysgu | Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) – gweithredu mewn Ysgolion | Cofrestr Risg Gorfforaethol. Bydd yn ddibynnol ar Wiriad Iechyd annibynnol gan ein hyswirwyr. | C2 YM38 | Amherthnaso l | Amherthnaso l | | Ebrill 2019 |

| Gwasanaeth / Adain | Teitl | Rheswm dros ei gynnwys | Graddfa Risg Gorfforaethol (Gweddilliol) | Cynllun Diwygiedig 2018/19 | Nifer dyddiau gwirioneddol ar 31/08/18 | Nodiadau / Lefel Sicrwydd | Targed / Dyddiad Gwirioneddol Adrodd i'r Pwyllgor |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dysgu | Adolygiadau Thematig Ysgolion Cynradd – Casglu Incwm Ysgolion | Cais y Pennaeth Gwasanaeth | | 20 | 16 | **Sicrwydd Cyfyngedig** | **~~September 2018~~ Rhagfyr 2018** |
| **ARDYSTIO GRANTIAU** | | | | | | | |
| | Grant Rhentu Doeth Cymru | Anghenion grantiau | Amherthnasol | 10 | 10 | **Sicrwydd Sylweddol** | **Gorffennaf 2018** |
| | Grant Gwisg Ysgol | | | | | **Sicrwydd Rhesymol** | **Medi 2018** |
| | Grant Gwella Dysgu | | | | | **Sicrwydd Sylweddol** | **Medi 2018** |
| | Grant Datblygu Disgyblion | | | | | **Sicrwydd Sylweddol** | **Medi 2018** |
| | **CYFANSWM ARCHWILIADAU** | | | **312** | **72** | | |
| **DYDDIAU HEB EU RHAGLENNU Y GELLIR CODI AMDANYNT (CYNHYRCHIOL)** | | | | | | | |
| | Gwaith Dilyn i Fyny | Nifer o adroddiadau sicrwydd cyfyngedig angen eu dilyn i fyny, yn cynnwys adrodd a gweinyddu 4Action | | 50 | 46 | | |
| | Menter Dwyll Genedlaethol | | | 8 | 8 | | |
| | Gwaith Atal Twyll Cyffredinol, ymholiadau ac atgyfeiriadau | | | 52 | 33 | | |
| | Cau gwaith y flwyddyn flaenorol | | | 19 | 19 | | |
| | Ymgynghoriaeth Corfforaethol | | | 60 | 34 | | |

Tudalen 51

| Gwasanaeth / Adain | Teitl | Rheswm dros ei gynnwys | Graddfa Risg Gorfforaethol (Gweddilliol) | Cynllun Diwygiedig 2018/19 | Nifer dyddiau gwirioneddol ar 31/08/18 | Nodiadau / Lefel Sicrwydd | Targed / Dyddiad Gwirioneddol Adrodd i'r Pwyllgor |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, yn cynnwys hyfforddiant i aelodau | | | 40 | 27 | | |
| | Adolygiad Rheoli | | | 40 | 15 | | |
| | **CYFANSWM** | | | **269** | **182** | | |
| **DYDDIAU NAD OES MODD CODI AMDANYNT (DDIM YN GYNHYRCHIOL)** | | | | | | | |
| | Risg ac Yswiriant | | | 20 | 10 | | |
| | Gweinyddu Cyffredinol | | | 40 | 25 | | |
| | Datblygiad Personol ac Adolygiad, Cyfarfodydd 121 a Thîm | | | 30 | 8 | | |
| | Rheoli, yn cynnwys cysylltu ag Archwilio Allanol a pharatoi cynllun archwilio | | | 40 | 24 | | |
| | Gwyliau, yn cynnwys blynyddol, statudol, arbennig a salwch | | | 357 | 173 | | |
| | Hyfforddiant a Datblygiad staff, yn cynnwys sesiynau cynefino a gwersi Cymraeg | | | 119 | 64 | | |
| | **CYFANSWM** | | | **606** | **303** | | |
| | **CYFANSWM ADNODD** | | | **1187** | | | |
| | **ADNODD SYDD AR GAEL** | | | **1096** | | | |
| | **DIFFYG O RAN ADNODD** | | | **-91** | | | |
| | **CYNHYRCHIANT** | | | **49%** | | | |

This page is intentionally left blank

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adolygiad Dilynol o Gynigion ar gyfer Gwella – **Cyngor Sir Ynys Môn**

Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2018

Cyfeirnod y ddogfen: 665A2018-19

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Sir Ynys Môn yn rhan o waith a berfformiwyd/a gaiff ei berfformio yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb o ran unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, neu unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Swyddfa Archwilio Cymru i infoofficer@audit.wales.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Charlotte Owen, Alan Hughes, Gwilym Bury ac Andy Bruce dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

Mae gan y Cyngor brosesau boddhaol o fynd i'r afael â chynigion ar gyfer gwella ac argymhellion gan Swyddfa Archwilio Cymru, ond gellid cryfhau'r trefniadau i roi gwell sicrwydd o gynnydd i aelodau etholedig.


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Cynigion ar gyfer gwella 4

Mae gan y Cyngor brosesau boddhaol o fynd i'r afael â chynigion ar gyfer gwella ac argymhellion gan Swyddfa Archwilio Cymru, ond gellid cryfhau'r trefniadau i roi gwell sicrwydd o gynnydd i aelodau etholedig 5

Mae gan y Cyngor drefniadau boddhaol ar gyfer mynd i'r afael â chynigion ar gyfer gwella ac argymhellion gan Swyddfa Archwilio Cymru ond byddai'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn elwa o ffurfioli drefn derbyn gwybodaeth fonitro. 5

Mae'r Cyngor wedi mynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella a gyflwynwyd yn yr adroddiadau dethol 6

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

1 Diben yr adolygiad hwn yw cael sicrwydd bod gan Gyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) drefniadau effeithiol ar gyfer mynd i'r afael â chynigion ar gyfer gwella ac argymhellion gan Swyddfa Archwilio Cymru, a'i fod yn gwerthuso i ba raddau y mae ei gamau gweithredu yn cyfrannu at gyflawni perfformiad gwasanaeth a chanlyniadau gwell i ddinasyddion.

2 Ym mis Rhagfyr 2015, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei Adroddiad Gwella Blynyddol (AGB) i'r Cyngor. Daeth yr adroddiad, a oedd yn cynnwys canfyddiadau o Asesiad Corfforaethol 2015, i'r casgliad bod hunanymwybyddiaeth y Cyngor a'i hanes o wella trefniadau llywodraethu a rheoli yn debygol o'i helpu i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn 2015-16.

3 Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- bod cydweithio effeithiol rhwng aelodau, swyddogion a phartneriaid o fewn fframwaith llywodraethu sy'n gwella, gan fynd i'r afael â blaenoriaethau lleol ac agweddau ar drefniadau'r Cyngor y mae'n cydnabod nad ydynt yn gweithio'n dda;
- bod y Cyngor wedi cymryd camau i fynd i'r afael â gwendidau yn ei ddefnydd strategol o adnoddau ond mae rhagor o waith i'w wneud yn wyneb heriau ariannol yn y dyfodol;
- bod y Cyngor wedi gwneud cynnydd da yn erbyn ei flaenoriaethau gwella allweddol.

Gwnaeth yr adroddiad hwn chwe chynnig ar gyfer gwella, sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad manwl isod.

4 I gael sicrwydd bod gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar gyfer mynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella, ym mis Mehefin 2018, fe wnaethom adolygu'r cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud wrth weithredu ar y cynigion hyn ar gyfer gwella ac effeithiolrwydd ei drefniadau i wneud hynny.

5 Gwelwyd bod gan y Cyngor brosesau boddhaol o fynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella ac argymhellion gan Swyddfa Archwilio Cymru, ond gellid cryfhau trefniadau i roi mwy o sicrwydd o ran cynnydd i aelodau etholedig. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- bod gan y Cyngor drefniadau boddhaol ar gyfer ymateb i'r cynigion ar gyfer gwella ac argymhellion gan Swyddfa Archwilio Cymru, ond nid yw aelodau etholedig yn cael gwybod yn gyson am gynnydd; ac
- mae'r Cyngor wedi mynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella a gyflwynwyd yn yr adroddiadau dethol.

## Cynigion ar gyfer gwella

6 Mae'r tabl isod yn cynnwys ein cynigion ar gyfer ffyrdd y gallai'r Cyngor wella'i drefniadau ar gyfer ymateb i gynigion ar gyfer gwella ac argymhellion.

Arddangosydd 1: cynigion ar gyfer gwella

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| C1 | Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau yn gyson am gynigion ar gyfer gwella ac argymhellion, a chynnydd y Cyngor yn ymwneud â nhw:<br>• dosbarthu holl adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru i aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu er gwybodaeth; ac<br>• adrodd yn flynyddol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar gynnydd a wnaed tuag at gynigion ac argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer gwella. |

# Mae gan y Cyngor brosesau boddhaol o fynd i'r afael â chynigion ar gyfer gwella ac argymhellion gan Swyddfa Archwilio Cymru, ond byddai'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn elwa o ffurfioli drefn derbyn gwybodaeth fonitro.

## Mae gan y Cyngor drefniadau boddhaol ar gyfer mynd i'r afael â chynigion ar gyfer gwella ac argymhellion gan Swyddfa Archwilio Cymru ond nid yw aelodau etholedig yn cael gwybod am gynnydd yn gyson

7 Mae gan y Cyngor brosesau eglur ar waith i gyflwyno canfyddiadau ac argymhellion o adolygiadau allanol i'r Tîm Arwain Strategol (TAS) sy'n blaenoriaethu'r argymhellion yn ôl risg a'u cydnawsedd â blaenoriaethau corfforaethol. Mae Penaethiaid Gwasanaethau yn rhoi gwybod i'r TAS am berthnasedd argymhellion mewn adroddiadau cenedlaethol, pan fo'n bosibl na fydd yr holl ganfyddiadau yn berthnasol i'r Cyngor.

8 Mae Penaethiaid Gwasanaethau yn datblygu camau i ymateb i'r argymhellion ac mae'r rhain wedi'u hymgorffori yng nghynlluniau cyflenwi blynyddol gwasanaethau. Mae gwasanaethau yn tracio cynnydd ar y cynlluniau bob chwarter ac mae panel o uwch swyddogion ac aelodau etholedig yn adolygu ac yn herio cynnydd mewn adolygiadau blynyddol o berfformiad gwasanaethau. Pan fo angen sicrwydd ychwanegol ar y Cyngor, mae'n sefydlu byrddau i oruchwylio a monitro gweithrediad argymhellion blaenoriaeth uchel, fel y rhai a gyflwynwyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn 2017.

9 Mae'r TAS yn pennu pa adroddiadau allanol sy'n cael eu cyflwyno i bwyllgorau'r Cyngor. Caiff adroddiadau y mae TAS yn ystyried eu bod yn flaenoriaeth neu'n risg uchel eu hadrodd fel arfer naill i'r pwyllgor Craffu neu'r pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, ag adroddiadau dilynol yn ôl yr angen. Ar hyn o bryd, ni chaiff holl adroddiadau allanol Swyddfa Archwilio Cymru eu dosbarthu i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu hyd yn oed fel eitem gwybodaeth, ac mae'n aneglur a yw pob aelod yn cael cyfle i ddarllen yr holl adroddiadau sydd ar gael. Byddai gwneud hynny yn hyrwyddo mwy o dryloywder trwy sicrhau bod gan aelodau'r Pwyllgor yr wybodaeth angenrheidiol a'u bod yn gallu cymryd camau dilynol ar unrhyw faterion o ddiddordeb neu bryder. Ar hyn o bryd, nid yw'r Cyngor yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Archwilio a

Llywodraethu ar gynnydd yn erbyn holl argymhellion a chynigion ar gyfer gwella Swyddfa Archwilio Cymru.

## Mae'r Cyngor wedi mynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella a gyflwynwyd yn yr adroddiadau dethol

### Arddangosydd 2: cynnig ar gyfer gwella 1

| Cynnig ar gyfer Gwella 1: AGB ac Asesiad Corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru 2015 |
|---|
| Dylai'r Cyngor adolygu ei flaenoriaethau gwella er mwyn sicrhau bod maint ei uchelgais yn glir a'i fod yn adlewyrchu'r capasiti a'r adnoddau sydd gan y Cyngor yn realistig. |

10 Mae Cynllun Corfforaethol 2017-2022 y Cyngor yn cynnwys blaenoriaethau gwella eglur ac uchelgeisiol sy'n gyson â Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol, ac yn ystyried barn pobl leol. Mae'r Cynllun wedi'i ategu gan gynlluniau cyflenwi blynyddol sy'n dangos maint ei uchelgais, sy'n darparu targedau meintiol ar gyfer y flwyddyn.

11 Datblygwyd y cynllun cyflenwi 2018-19 drafft ochr yn ochr â Chynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor i sicrhau bod mentrau yn ystyried y cyllid sydd ar gael. Er enghraifft, bydd yr holl weithgareddau sydd wedi'u cynllunio yng nghynllun cyflenwi 2018-19 yn cael eu cyflawni trwy gyllideb refeniw a rhaglen gyfalaf y Cyngor ar gyfer y flwyddyn. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig hefyd yn ystyried gofynion cyllid ar gyfer blynyddoedd y Cynllun Corfforaethol yn y dyfodol. Mae'r Cyngor yn adolygu ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig yn rheolaidd yn sgil gwybodaeth ariannol newydd. Bydd y trefniadau hyn yn sicrhau bod cynlluniau cyflenwi yn y dyfodol wedi'u seilio ar y rhagamcanion diweddaraf o'r arian sydd ar gael.

### Arddangosydd 3: cynnig ar gyfer gwella 2

| Cynnig ar gyfer Gwella 2: AGB ac Asesiad Corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru 2015 |
|---|
| Dylai'r Cyngor sicrhau bod ei strategaethau ar gyfer Rheoli Asedau, Pobl a TGCh wedi'u cysylltu'n glir â Chynllun Corfforaethol y Cyngor a'r strategaeth ariannol gysylltiedig. |

12 Mae cysylltiadau rhesymol rhwng Cynllun Corfforaethol diweddaraf y Cyngor a'i strategaethau ategol. Er enghraifft, wrth roi manylion am sut y bydd yn cyflawni ei amcanion, mae'r Cynllun Corfforaethol yn cyfeirio at gaffael neu adeiladu tai, tai gofal ychwanegol, ac adeiladu ysgol newydd. Mae rhagor o fanylion am yr holl brosiectau hyn wedi'u cynnwys yng Nghynllun Rheoli Asedau y Cyngor, sydd ei hun yn cyfeirio at y strategaethau gwasanaeth sy'n sylfaen iddo. Mae'r Cynllun yn cynnwys crynodeb o gyllideb Cynllun Cyfalaf y Cyngor, ond nid yw wedi'i ddiweddaru yng nghyllideb y flwyddyn bresennol.

13 Mae’r Cynllun Corfforaethol yn cyfeirio at ddefnyddio TG i weddnewid sut y mae’r Cyngor yn darparu gwasanaethau. Ar hyn o bryd, mae’r Cyngor yn diweddaru ei Strategaeth Ddigidol fel ei bod yn gyson â’r Cynllun Corfforaethol presennol, ond mae’r strategaeth bresennol yn dangos rhai o’r ffyrdd y mae’r Cyngor yn defnyddio, neu’n bwriadu defnyddio, TGCh i weddnewid sut y mae staff yn gweithio a sut y mae’r cyhoedd yn rhyngweithio â’r Cyngor.

14 Mae Strategaeth Pobl y Cyngor yn dangos sut y mae’n cysylltu’r Cynllun Corfforaethol â’r strategaeth a phrosiectau adnoddau dynol sy’n sylfaen iddo. Mae gan bob strategaeth gynllun gweithredu yn sylfaen iddi sy’n gyson â blaenoriaethau corfforaethol. Hefyd, mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn ystyried gofynion ariannol y blaenoriaethau gwella yn y Cynllun Corfforaethol ac mae cynlluniau cyflenwi blynyddol yn adlewyrchu’r adnoddau sydd ar gael.

Arddangosydd 4: cynnig ar gyfer gwella 3

| **Cynnig ar gyfer Gwella 3: AGB ac Asesiad Corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru 2015** |
|---|
| Dylai’r Cyngor sefydlu ymhellach ddiwylliant o waith corfforaethol cyson ymhlith staff ar bob lefel, a sicrhau bod staff ar bob lefel yn cael eu dwyn i gyfrif am gydymffurfio â pholisïau’r Cyngor a gweithredu penderfyniadau. |

15 Dywedodd swyddogion y Cyngor y gwnaethom ni siarad a hwy bod diwylliant corfforaethol y Cyngor wedi gwella dros y blynyddoedd diwethaf. Ceir perthynas waith cydgysylltiedig rhwng uwch-swyddogion ac mae hyn yn rheadru i lawr drwy’r sefydliad. Mae prosiectau traws-adrannol, megis prosiect Wylfa Newydd, hefyd yn helpu i leihau seilos ac ymgorffori diwylliant mwy cyson o weithio corfforaethol. Mae cyfarfodydd adolygu gwasanaethau bob chwe mis hefyd yn annog Penaethiaiad Gwasanaethau i ystyried sut y maent yn cyfrannu at ymagwedd gorfforaethol gyson tuag at y gwaith.

16 Sefydlodd y Cyngor system rheoli polisïau electronig ym mis Ebrill 2017 i ymdrin â phryderon ynglŷn â’i brosesau cadw cofnodion o ran cydymffurfiaeth staff â pholisïau. Mae’r Porthol Polisïau yn darparu llyfrgell electronig o dros 100 o bolisïau’r Cyngor ac yn galluogi staff i gadarnhau yn electronig eu bod wedi darllen a deall y polisïau. Mae Penaethiaid Gwasanaethau a’r Uwch Dîm Arwain (UDA) wedi blaenoriaethu polisïau corfforaethol allweddol i staff eu hadolygu a’u derbyn. Cyflwynwyd chwech i’w derbyn yn 2017-18 ac mae naw arall wedi’u dewis ar gyfer 2018-19. Mae adroddiadau cydymffurfio a gyflwynir i Benaethiaid Gwasanaethau â’r UDA yn dangos cyfraddau cydymffurfio o ryw 75%. Fodd bynnag, gan fod y system yn defnyddio cyfeiriadau e-bost y Cyngor a chronfa ddata ei staff, ni all adroddiadau cydymffurfio ond ystyried staff â chyfrif e-bost y Cyngor. Ar hyn o bryd mae’r Cyngor yn chwilio am ffyrdd o sicrhau bod y system ar gael i’r holl staff.

Arddangosydd 5: cynnig ar gyfer gwella 4

| **Cynnig ar gyfer Gwella 4: AGB ac Asesiad Corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru 2015** |
| --- |
| Wrth weithredu ei strategaeth gaffael newydd, dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn datblygu ac yn defnyddio'r sgiliau sydd eu hangen i reoli a monitro contractau â chyflenwyr nwyddau a gwasanaethau allanol yn well. |

17 Yn dilyn rhaglen genedlaethol Llywodraeth Cymru o wiriadau ffitrwydd caffael yn 2013, sefydlodd y Cyngor brosiect gwella trefniadau caffael i fynd i'r afael ag argymhellion yr adolygiad. Mabwysiadodd y Cyngor strategaeth gaffael newydd ym mis Mai 2015 a chynyddu nifer yr aelodau staff ar y tîm caffael er mwyn gwella'i gapasiti. Datblygodd y Cyngor Strategaeth Rheoli Contractau hefyd, sy'n rheoli rhai o'r prif gontractau o fan canolog.

18 Gall rheolwyr contractau gael gafael ar amrywiaeth o hyfforddiant a chymorth. Er enghraifft, mae'r Llawlyfr Caffael yn rhoi gwybodaeth am y broses gaffael ac mae Arweinwyr Caffael ar gael i roi cymorth. Ar hyn o bryd, mae'r Tîm Caffael Corfforaethol yn diweddaru ei hyfforddiant gweithdrefnau a rheolau contractau caffael a bydd yn cynnal rhaglen o sesiynau hyfforddi pan fydd wedi cwblhau'r gwaith hwn. Darparodd y Tîm hyfforddiant rheoli contractau hefyd ym mis Chwefror 2018 ac mae'n trefnu sesiwn arall i swyddogion sy'n gyfrifol am reoli contractau mawr dros drothwy'r tendr.

19 Daeth hunanasesiad mewnol o'r swyddogaeth gaffael, a oedd wedi'i seilio ar wiriad ffitrwydd cychwynnol, i'r casgliad bod aeddfedrwydd y Cyngor yn gwella ac yn datblygu tuag at gydymffurfio. Mae adran Archwilio Mewnol y Cyngor yn parhau i adolygu'r swyddogaeth gaffael yn rheolaidd, gan ystyried y cynllun gwella. Yn ei adroddiad dilynol ym mis Chwefror 2018, canfu'r Cyngor ei fod wedi gwneud cynnydd da o ran gweithredu camau, ond gan nad oedd nifer o gamau allweddol wedi'u cwblhau ar y pryd, gellid rhoi sicrwydd cyfyngedig yn unig. Bydd yr adran Archwilio Mewnol yn adolygu'r cynnydd yn erbyn y camau sy'n weddill yn ystod mis Gorffennaf 2018.

Arddangosydd 6: cynnig ar gyfer gwella 5

| **Cynnig ar gyfer Gwella 5: AGB ac Asesiad Corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru 2015** |
| --- |
| Dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn cynllunio ei weithlu mewn ffordd gyson ac yn defnyddio'r canlyniadau i lywio toriadau staff yn y dyfodol. |

20 Mae'r Cyngor wedi datblygu dull wedi'i seilio ar risg o gynllunio'r gweithlu ac mae hyn wedi'i ategu gan Strategaeth Weithredol ar gyfer Cynllunio Gweithlu. Yn ystod 2017, gweithiodd swyddogion adnoddau dynol gyda'r holl Benaethiaid Gwasanaethau i raddio risgiau gweithlu ym mhob gwasanaeth a datblygu camau i leihau'r risgiau a nodwyd. Mae swyddogion adnoddau dynol yn cwrdd â Phenaethiaid Gwasanaethau bob chwarter i adolygu a diweddaru'r risgiau ac asesu effaith camau lliniaru. Datblygodd Gwasanaeth Plant a Theuluoedd y Cyngor ei dogfen strategaeth gweithlu ei hun yn ddiweddar, wedi'i seilio ar yr wybodaeth a gafwyd o'r broses cynllunio gweithlu uchod. Mae'r ddogfen wedi'i rhannu â gwasanaethau eraill sy'n

dymuno datblygu eu strategaeth eu hunain,  ac mae nod clir i'r holl wasanaethau gynhyrchu dogfen debyg.

21 Gan gydnabod anawsterau'r Cyngor yn y gorffennol i recriwtio staff i swyddi uwch, gofynnwyd i Benaethiaid Gwasanaethau hefyd nodi olynwyr posibl i swydd y Pennaeth Gwasanaeth a'r lefel reoli isod. Mae rhaglen arweinyddiaeth fewnol yn cefnogi swyddogion y nodir eu bod yn 'berfformwyr disglair' i ddatblygu eu potensial. Gwnaeth carfannau diweddar sylwadau cadarnhaol ynglŷn â'r rhaglen ac mae'r Cyngor yn gobeithio y bydd yn helpu i wella cyfraddau cadw staff a chynllunio olyniaeth. Mae'r Cyngor hefyd yn nodi cyfleoedd i ddenu dawn newydd i'w weithlu. Bydd un cynllun a lansiwyd yn ddiweddar yn rhoi profiad gwaith â thâl yn y Cyngor am 12 wythnos i oedolion ifanc.

22 Mae'r Cyngor hefyd wedi adolygu rhychwantau rheolaeth yn y sefydliad, h.y. nifer yr aelodau staff y mae rheolwr neu oruchwyliwr yn eu rheoli yn uniongyrchol. Mae canllawiau yn awgrymu na ddylai rheolwyr reoli llai na thri neu fwy nag wyth aelod o staff. Mae'r ymarfer wedi nodi arbedion posibl a bydd hyn yn llywio cynigion ailstrwythuro yn y dyfodol.

Arddangosydd 7: cynnig ar gyfer gwella 6

| **Cynnig ar gyfer Gwella 6: AGB ac Asesiad Corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru 2015** |
|---|
| Dylai'r Cyngor fynd ati mewn ffordd systematig a, lle y bo'n briodol, ffordd gorfforaethol i ymdrin â'r argymhellion a'r cynigion ar gyfer gwella sydd wedi'u cynnwys yn y canlynol:<br>• Adolygiadau Swyddfa Archwilio Cymru o drefniadau'r Cyngor i helpu i ddiogelu plant, ac adolygiadau o Fwrdd Gwasanaethau Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd;<br>• Adolygiad o'r gwasanaeth TGCh a gomisiynwyd gan y Cyngor;<br>• Hysbysiad Gorfodi a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth;<br>• Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2013-14 a gyhoeddwyd gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru; ac<br>• Adroddiadau a luniwyd gan yr adran Archwilio Mewnol. |

23 Datblygodd y Cyngor gynllun gweithredu i ymateb i argymhellion diogelu perthnasol, a chyflawnwyd camau ar bob argymhelliad ac eithrio un yn ymwneud â hyfforddiant diogelu erbyn diwedd 2016-17. Mae'r tîm Archwilio Mewnol erbyn hyn yn adolygu trefniadau diogelu yn rheolaidd. Mae eu hadroddiad o fis Gorffennaf 2017 yn rhoi sicrwydd rhesymol ynglŷn â chynnydd a wnaed i wella trefniadau presennol ac yn cadarnhau bod y Cyngor yn cyflawni'r camau sy'n weddill yn ymwneud â hyfforddiant diogelu.

24 Roedd y Cyngor yn gwneud cynnydd da yn erbyn yr argymhellion yn adroddiad y Bwrdd Cydwasanaeth Lleol yn ystod 2016-17 ond daeth y gwaith i ben pan benderfynodd Llywodraeth Cymru gyflwyno Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn lle'r Byrddau Gwasanaethau Lleol.

25 Yn dilyn adolygiad allanol o'i Wasanaeth TGCh, ymgorfforodd y Cyngor yr argymhellion o'r adroddiad yng nghynllun gweithredu gwasanaeth y gyfadran TGCh yn 2016. Mae pob cam ac eithrio un wedi'i gwblhau. Mae'r argymhelliad sy'n weddill yn ymwneud â defnyddio trefniadau rheoli prosiectau corfforaethol mewn prosiectau sy'n ymwneud â thechnoleg. Mae'r cynllun gweithredu yn nodi bod y Cyngor yn penderfynu ar ei ddull o reoli prosiectau. Roedd un o'r argymhellion yn ymwneud â threfniadau Adfer ar ôl Argyfwng TGCh y Cyngor, sydd wedi bod yn destun nifer o adolygiadau gan y tîm Archwilio Mewnol. Yn dilyn dechrau araf, gwnaeth y Cyngor gynnydd da yn ystod 2016-17 a darparodd y tîm Archwilio Mewnol radd sicrwydd sylweddol yn ei adroddiad mis Mehefin 2017.

26 Sefydlodd y Cyngor Fwrdd Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol ym mis Tachwedd 2014 i fynd i'r afael â risgiau gwybodaeth. Caiff ei gadeirio gan yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth sy'n adrodd yn flynyddol i'r Pwyllgor Archwilio. Lluniodd y Bwrdd gynllun gweithredu i fynd i'r afael â Hysbysiad Gorfodi y Comisiynydd Gwybodaeth a'r naw argymhelliad. Roedd y cynllun yn cynnwys 41 o gamau i fynd i'r afael â'r naw argymhelliad ac fe'i gweithredwyd gan is-grŵp o'r Bwrdd. Blaenoriaethwyd y camau yn nhrefn risg. Llofnodwyd y cynllun gweithredu i ddweud ei fod yn gyflawn ym mis Chwefror 2018, er bod dau gam gweithredu yn eisiau sy'n ymwneud â hawliau mynediad ffisegol a chronfa ddata hyfforddiant electronig. Ymdrinnir â'r rhain yn rhan o'r Prosiect TGCh Northgate presennol.

27 Disodlwyd gwaith cynharach y Cyngor mewn ymateb i'r argymhellion yn adroddiadau 2013-14 a 2014-15 Arolygiaeth Gofal Cymru gan adroddiad yr Arolygiaeth o fis Mawrth 2017 a oedd yn cynnwys 14 o argymhellion. Ymatebodd y Cyngor yn rhagweithiol, trwy ddatblygu cynllun gweithredu a gafodd ei ymgorffori yng nghynllun gwella'r Gwasanaethau Plant. Mae'r Cyngor wedi sefydlu trefniadau llywodraethu priodol i graffu ar y cynnydd ar y cynllun: mae Panel Gwella Gwasanaethau Plant yn cwrdd yn fisol a chaiff adroddiadau monitro rheolaidd eu cyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol a'r Pwyllgor Gweithredol. Mae'r adroddiad diweddaraf yn dangos y gwnaed cynnydd ar bob elfen o'r cynllun, a chofnodwyd bod chwech wedi'u datblygu, bod deg bron yn gyflawn a bod pump yn ddarnau o waith sy'n parhau.

28 Mae'r Cyngor wedi cryfhau ei drefniadau ar gyfer gweithredu ar argymhellion y tîm Archwilio Mewnol. Mae gwasanaethau yn derbyn cyfrifoldeb am risgiau a materion ac yn datblygu'r camau gweithredu sydd eu hangen i fynd i'r afael â nhw. Mae cyfarfodydd adolygu gwasanaethau wedyn yn dwyn uwch swyddogion i gyfrif am gynnydd ar yr argymhellion. Mae'r tîm Archwilio Mewnol yn gweithredu ar argymhellion o'r adroddiadau archwilio â sicrwydd cyfyngedig neu brin iawn, a hynny yn fuan ar ôl i'r adeg pan oedd y camau a gynlluniwyd i fod yn wedi'u cwblhau. Mae hyn yn darparu sicrwydd bod y camau wedi'u cwblhau a'u bod wedi mynd i'r afael â'r materion. Hefyd, ni all gwasanaethau ddiwygio dyddiad cyrraedd targedau ar gyfer camau gweithredu mwyach heb ganiatâd y tîm Archwilio Mewnol. O ganlyniad i'r trefniadau cryfach hyn, mae canran yr argymhellion a roddwyd ar waith wedi cynyddu i ryw 90% ac mae'r ôl-groniad o argymhellion nad ydynt wedi'u rhoi ar waith wedi lleihau. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn darparu goruchwyliaeth effeithiol, yn derbyn adroddiadau diweddaru rheolaidd ac yn dwyn gwasanaethau i gyfrif am ddiffyg cynnydd yn ôl yr angen

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| **DYDDIAD:** | **04 RHAGFYR 2018** |
| **PWNC:** | **ADRODDIAD ADOLYGU CANOL BLWYDDYN RHEOLI'R TRYSORLYS 2018/19** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO** | **CYNGHORYDD ROBIN WILLIAMS** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES, PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151 (EST. 2601)** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>FFÔN:<br>E-BOST: | **GARETH ROBERTS**<br>01248 752675<br>GarethJRoberts@ynysmon.gov.uk |
| **AELODAU LLEOL:** | **d/b** |

## 1. Cefndir

### 1.1 Strategaeth Gyfalaf

Yn Rhagfyr 2017, cyhoeddodd Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA), Godau Rheoli'r Trysorlys a Darbodus diwygiedig. O 2019/20, bydd angen i bob awdurdod lleol baratoi Strategaeth Gyfalaf fydd yn darparu'r canlynol: -

- trosolwg lefel uchel o sut mae gwariant cyfalaf, cyllido cyfalaf a gweithgaredd rheoli'r trysorlys yn cyfrannu at ddarparu gwasanaethau;
- trosolwg o sut mae'r risg gysylltiedig yn cael ei rheoli; â'r
- goblygiadau ar gyfer cynaliadwyedd cyllidol yn y dyfodol.

Bydd adroddiad yn cynnwys ein Strategaeth Gyfalaf yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn cyn 31 Mawrth 2019.

### 1.2 Rheoli'r Trysorlys

Mae'r Cyngor yn gweithredu cyllideb gytbwys, sy'n golygu'n fras bod arian a godir yn ystod y flwyddyn yn talu am ei wariant ariannol. Mae rhan o weithrediadau rheoli'r trysorlys yn sicrhau bod y llif ariannol hwn yn cael ei gynllunio'n ddigonol, gydag arian dros ben yn cael ei fuddsoddi mewn gwrthbartïon risg isel, gan sicrhau hylifedd digonol i gychwyn cyn ystyried yr elw gorau posibl o'r buddsoddiadau.

Ail brif swyddogaeth y gwasanaeth rheoli'r trysorlys yw cyllido cynlluniau cyfalaf y Cyngor. Mae'r cynlluniau cyfalaf hyn yn ganllaw o faint y bydd angen i'r Cyngor ei fenthyca, hynny yw, y gwaith o gynllunio llif arian yn y tymor hir i sicrhau bod y Cyngor yn gallu cyflawni ei weithgareddau gwariant cyfalaf. Gallai'r gwaith hwn o reoli arian yn y tymor hir gynnwys trefnu benthyciadau tymor hir neu dymor byr, neu ddefnyddio arian dros ben o'r llif arian tymor hir ac, ar adegau, gall unrhyw ddyled a drefnwyd yn flaenorol gael ei hailstrwythuro i gwrdd ag amcanion risg neu gost y Cyngor.

Yn unol â hyn, diffinnir rheoli'r trysorlys fel hyn:-

"*Rheoli benthyciadau, buddsoddiadau a llif arian yr awdurdod lleol, ei drefniadau bancio a thrafodion ar y farchnad arian a'r farchnad gyfalaf; rheolaeth effeithiol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hynny; a cheisio'r perfformiad gorau posib sy'n gyson â'r risgiau hynny*."

## 2. Cyflwyniad

Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn yn unol â gofynion Côd Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys (diwygiwyd 2017). Dyma ofynion sylfaenol y Côd:-

**(i)** Creu a chynnal Datganiad ar y Polisi Rheoli'r Trysorlys sy'n amlinellu polisïau ac amcanion gweithgareddau rheoli'r trysorlys y Cyngor.

**(ii)** Creu a chynnal Arferion Rheoli'r Trysorlys sy'n amlinellu'r modd y bydd y Cyngor yn ceisio cyflawni'r polisïau a'r amcanion hynny.

**(iii)** Y Cyngor llawn yn derbyn Datganiad Blynyddol ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, sy'n cynnwys y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol a Pholisi Isafswm y Ddarpariaeth Refeniw ar gyfer y flwyddyn i ddod, Adroddiad Adolygu Canol Blwyddyn (yr adroddiad hwn) ac Adroddiad Blynyddol, sy'n rhoi sylw i weithgareddau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol.

**(iv)** Y Cyngor llawn yn dirprwyo cyfrifoldebau am weithredu a monitro'r polisïau ac arferion rheoli'r trysorlys ac am weithredu a gweinyddu penderfyniadau rheoli'r trysorlys.

**(v)** Y Cyngor yn dirprwyo'r gwaith o sgrwtineiddio'r strategaeth a'r polisïau rheoli'r trysorlys i gorff penodol, sef y Pwyllgor Archwilio yn achos y Cyngor hwn.

Mae'r adroddiad canol blwyddyn hwn wedi'i baratoi yn unol â Chôd Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys, ac mae'n cynnwys y canlynol:-

- Diweddariad economaidd ar gyfer rhan gyntaf blwyddyn ariannol 2018/19;
- Adolygiad o'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol;
- Gwariant cyfalaf y Cyngor fel y nodir yn y Strategaeth Gyfalaf, a dangosyddion darbodus;
- Adolygiad o bortffolio buddsoddi'r Cyngor ar gyfer 2018/19;
- Adolygiad o strategaeth fenthyca'r Cyngor ar gyfer 2018/19;
- Adolygiad o unrhyw ail drefnu dyledion yn ystod 2018/19;
- Crynodeb o weithgaredd ers Chwarter 2; ac
- Adolygiad o gydymffurfio â Therfynau Trysorlys a Darbodus ar gyfer 2018/19.

## 3. Diweddariad Economaidd

**3.1** Rhoddwyd diweddariad economaidd gan ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor ac mae i'w weld yn Atodiad 1. Hefyd yn ddiweddar maent wedi darparu'r rhagolwg cyfradd llog canlynol:-

| | Rhag 2018 | Maw 2019 | Meh 2019 | Medi 2019 | Rhag 2019 | Maw 2020 | Meh 2020 | Medi 2020 | Rhag 2020 | Maw 2021 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfradd Banc(%) | 0.75% | 0.75% | 0.75% | 1.00% | 1.00% | 1.00% | 1.25% | 1.25% | 1.50% | 1.50% |
